



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Partneriaeth  
Cydwasaethau  
Shared Services  
Partnership

**Private & Confidential**

By Email Only:

Ein cyf / Our ref:

E-bost/Email:

[AllWales.Alerts@wales.nhs.uk](mailto:AllWales.Alerts@wales.nhs.uk)

Dyddiad / Date: 5<sup>th</sup> March 2024

**Welsh Government – WHC/2024/02**

Standards for Competency Assurance of Non-Medical Prescribers in Wales PDF's (Eng & Welsh) & Independent and Supplementary Prescribing in Wales Guidance for employers and practitioners in NHS Wales

**This alert has been cascaded to the following:**

**All Wales GP Practice Managers  
All Wales GP OOHs  
All Wales Sessional GPs  
All Wales Pharmacies / Technicians  
All Wales Dental Practices  
All Wales HB Primary Care Managers  
All Wales HB Pharmacy & Prescribing Advisors  
All Wales Medial Committees  
All Wales Pharmacy Committees  
All Wales Dental Committees**

Annwyl Gydweithwyr,

Cewch hyd i'r Cylchlythyr Iechyd Cymru diweddaraf ynghlwm: Safonau ar gyfer Sicrhau Cymhwysedd Rhagnodwyr Anfeddygol yng Nghymru

Rhaeadrwch yn ôl yr angen.

Llawer o ddiolch

---

Dear Colleagues,

Please find the latest Welsh Health Circular attached: Standards for Competency Assurance of Non-Medical Prescribers in Wales

Please cascade as necessary.

Many Thanks

Correspondence & Questions Administrator

Government and Corporate Business Team / Tîm Busnes y Llywodraeth a Corfforaethol

Health and Social Services Group / Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Welsh Government / Llywodraeth Cymru



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Darparu Presgripsiynau Annibynnol ac Atodol yng Nghymru

Canllawiau i gyflogwyr ac ymarferwyr GIG Cymru

Ionawr 2024

# Pwrpas y canllawiau hyn

Bwriad y canllawiau hyn yw helpu cyflogwyr, rheolwyr ac ymarferwyr i ganfod eu ffordd trwy'r prosesau gweinyddol a gweithdrefnol mwyaf cyffredin sy'n galluogi gweithwyr proffesiynol i fod yn ddarparwyr presgripsiynau annibynnol neu atodol o fewn GIG Cymru.

## Cynulleidfa'r ddogfen

Pob bwrdd iechyd yng Nghymru.

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Darparwyr presgripsiynau anfeddygol gan gynnwys:

- Optometryddion
- Nyrsys Cofrestredig
- Bydwagedd
- Fferyllwyr
- Ffisiotherapyddion
- Podiatryddion
- Parafeddygon
- Dietegwyr
- Radiograffwyr.

Ymarferwyr meddygol a deintyddol.

Sefydliadau Addysg Uwch sy'n darparu addysg a hyfforddiant darparu presgripsiynau anfeddygol.

Gwasanaethau iechyd carchardai.

Gwasanaethau meddygol milwrol.

Darparwyr gofal iechyd annibynnol.

Cyrff arweinyddiaeth proffesiynol.

Rheoleiddwyr proffesiynol.

# Cynnwys

Cyflwyniad	1
Trosolwg o Ddarparu Presgripsiynau Atodol ac Annibynnol	2
Nyrsys Cofrestredig	2
Fferyllwyr	3
Optometryddion	3
Ffisiotherapyddion	3
Podiatryddion	3
Parafeddygon	4
Radiograffwyr therapiwtig	4
Radiograffwyr diagnostig	4
Dietegwyr	4
Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill	4
Categoriâu darparwyr presgripsiynau anfeddygol	5
Darparwyr presgripsiynau atodol	5
Darparwyr presgripsiynau sy'n nyrsys cymunedol	6
Darparwyr presgripsiynau annibynnol	6
Darparu presgripsiynau o fewn cymhwysedd proffesiynol	7
Meddyginiaethau ac offer y gellir eu rhoi ar bresgripsiwn gan ddarparwyr anfeddygol	8
Darparu presgripsiwn ar gyfer meddyginiaethau didrwydded	10
Cymysgu meddyginiaethau	10
Meddyginiaethau all-drwydded	10
Offer, dresinau a sylweddau ffiniol	11
Addysg a hyfforddiant	12
Rhaglenni paratoi addysg yng Nghymru	12
Goruchwylio mewn hyfforddiant a rôl Ymarferwyr Darparu Presgripsiynau Dynodedig	14
Fframwaith cymwyseddau ar gyfer pob darparwr presgripsiynau	15
Datblygiad Proffesiynol Parhaus	16
Ehangu cwmpas ymarfer	17
Cydweithio	18
Darparu presgripsiynau atodol	18
Darparu presgripsiynau annibynnol	18

Atebolrwydd cyfreithiol a phroffesiynol	19
Indemniad proffesiynol	19
Atebolrwydd a chyfrifoldebau darparwyr presgripsiynau anfeddygol	19
Atebolrwydd a chyfrifoldebau cyflogwyr	20
Cadw cofnodion	21
Rhoi gwybod am adweithiau niweidiol i gyffuriau	22
Ffurflenni presgripsiwn ac ati	23
Archebu ffurflenni presgripsiwn (gofal sylfaenol)	23
Storio ffurflenni presgripsiwn	23
Ffurflenni presgripsiwn wedi'u dwyn	23
Dinistrio ffurflenni presgripsiwn	23
Delio â sefyllfaoedd penodol	24
Gwahanu darparu presgripsiwn a gweinyddu neu roi'r meddyginiaethau	24
Darparu presgripsiwn ar eich cyfer chi eich hun, eich ffrindiau a'ch teulu	24
Breintiau ac arhegion	24
Ymarfer fel darparwr presgripsiynau anfeddygol	25
Cofrestru gyda'r rheoleiddiwr proffesiynol perthnasol	25
Cofrestru gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru	26
Newid amgylchiadau	27
Pa ffurflen bresgripsiwn sydd ei hangen arnaf?	27
Archebu ffurflenni presgripsiwn	28
Personoli ffurflenni presgripsiwn	28
Presgripsiynau a gynhyrchir ar gyfrifiadur	29
Gwirio statws darparwyr presgripsiynau anfeddygol	29
Gweinyddu presgripsiynau gan ddarparwyr anfeddygol	30
Gwahanu darparu presgripsiynau a gweinyddu, cyflenwi	30
Meddygon fferyllol	31
Materion trawsffiniol	31
Practisau preifat	31
Geirfa	32
Llyfryddiaeth	35
Atodiad 1: Y cynllun rheoli clinigol	36

# Cyflwyniad

---

Cynhyrchwyd y canllawiau hyn gan Lywodraeth Cymru i nodi'r camau gweinyddol a gweithdrefnol sydd eu hangen er mwyn galluogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol anfeddygol i fod yn ddarparwyr presgripsiynau annibynnol ac atodol. Mae'r canllawiau'n dangos sut i ddarparu presgripsiynau'n ddiogel ac effeithiol yng Nghymru ac yn darparu gwybodaeth a chynghor ar sut i ddelio gyda sefyllfaoedd cyffredin wrth ddarparu presgripsiynau.

Mae deddfwriaeth meddyginiaethau'r Deyrnas Unedig yn caniatáu i grwpiau penodol o weithwyr gofal iechyd proffesiynol heblaw meddygon a deintyddion hyfforddi a gweithio fel darparwyr presgripsiynau annibynnol neu atodol.

Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth fydd yn helpu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n dymuno hyfforddi a gweithio fel darparwyr presgripsiynau annibynnol ac atodol, a chynghor er mwyn hyrwyddo arfer da ar gyfer pob darparwr presgripsiynau anfeddygol yng Nghymru.

Mae'r canllawiau hyn yn cymryd lle 'Canllawiau ar gyfer Rhoi Presgripsiynau Anfeddygol yng Nghymru 2017' a'r holl fersiynau blaenorol. Mae'r ddogfen hon yn dangos y sefyllfa fel ag y mae ar ddyddiad ei chyhoeddi.

# Trosolwg o Ddarparu Presgripsiynau Atodol ac Annibynnol

---

Mae nifer o grwpiau o weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar wahân i feddygon a deintyddion, yn amodol ar gwblhau hyfforddiant ychwanegol, yn gallu rhoi meddyginiaeth ar bresgripsiwn i gleifion fel darparwyr presgripsiynau annibynnol neu atodol. Cyfeirir at yr holl weithwyr gofal iechyd proffesiynol hyn fel darparwyr presgripsiynau anfeddygol (*non-medical prescribers/NMPs*).

Mae **darparwyr presgripsiynau annibynnol** yn gyfrifol ac yn atebol am asesu cleifion sydd â diagnosis o gyflwr eisoes neu sydd â chyflwr heb ddiagnosis. Maen nhw'n gyfrifol ac yn atebol hefyd am benderfyniadau ynghylch y rheolaeth glinigol sydd ei hangen, gan gynnwys rhoi presgripsiynau.

Mae **darparwyr presgripsiynau atodol** yn gweithio mewn partneriaeth â meddyg neu ddeintydd i weithredu cynllun rheoli clinigol ar gyfer y claf. Bydd pawb, gan gynnwys y claf, yn cytuno ar y cynllun.

Mae nodyn wrth enw pob darparwr presgripsiynau annibynnol ac atodol ar y gofrestr broffesiynol berthnasol.

## Nyrsys Cofrestredig

---

Er mwyn gallu rhoi presgripsiwn ar gyfer cynhyrchion meddyginiaethol, mae'n rhaid i nyrsys cofrestredig a bydwagedd gofnodi eu cymhwyster darparu presgripsiynau ar gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC). Mae dau fath o ddarparwr presgripsiynau ymhlith nyrsys cofrestredig a bydwagedd. Darparwyr presgripsiynau sy'n fydwragedd a nyrsys cymunedol; a darparwyr presgripsiynau annibynnol ac atodol sy'n fydwragedd ac yn nyrsys cofrestredig.

Os am ragor o fanylion, dyma ddolen ar gyfer rhaglenni a safonau darparu presgripsiynau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC): [Safonau ar gyfer rhaglenni darparu presgripsiynau – Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth \(nmc.org.uk\)](https://www.nmc.org.uk)

Gall darparwyr presgripsiynau annibynnol sy'n Nyrsys Cofrestredig (a elwid gynt yn "Extended Formulary Nurse Prescribers") roi unrhyw feddyginiaeth ar bresgripsiwn i drin unrhyw gyflwr meddygol yn eu maes cymhwysedd. Mae hyn yn cynnwys meddyginiaethau trwyddedig a didrwydded.

Gall darparwyr presgripsiynau annibynnol sy'n Nyrsys Cofrestredig ddarparu presgripsiynau, rhoi'r feddyginiaeth a rhoi cyfarwyddiadau ar gyfer rhoi cyffuriau a reolir o Atodlenni 2, 3, 4 a 5. Mae hyn yn cynnwys diamorffin hydroclorid, dipipanon, neu gocên i drin clefyd organig neu anaf, ond nid i drin dibyniaeth.

Rhaid i ddarparwyr presgripsiynau annibynnol sy'n Nyrsys Cofrestredig weithio o fewn eu cymhwysedd proffesiynol a'u cwrpas ymarfer.

Gall Nyrsys Cofrestredig sydd wedi cwblhau cwrs Darparu Presgripsiynau ar gyfer Ymarferwyr Cymunedol (a elwir hefyd yn gwrs v100 neu v150) gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) gofrestru gyda'r NMC fel Darparwyr Presgripsiynau Annibynnol sy'n Nyrsys Cymunedol (CNIP). Mae'r rhan fwyaf o Ddarparwyr Presgripsiynau Annibynnol sy'n Nyrsys Cymunedol yn nyrsys ardal a nyrsys iechyd cyhoeddus (a elwid gynt yn ymwelwyr iechyd), nyrsys cymunedol a nyrsys ysgol. Dim ond presgripsiynau

o [Lyfr Fformiwlâu Darparwyr Presgripsiynau sy'n Nyrsys \(NPF\)](#) ar gyfer Ymarferwyr Cymunedol y maent yn gymwys i'w rhoi.

## Fferyllwyr

---

Gall darparwyr presgripsiynau annibynnol sy'n fferyllwyr ddarparu presgripsiwn ar gyfer unrhyw feddyginiaeth i drin unrhyw gyflwr meddygol yn eu maes cymhwysedd. Mae hyn yn cynnwys meddyginiaethau trwyddedig a didrwydded.

Gall darparwyr presgripsiynau annibynnol sy'n fferyllwyr hefyd ddarparu presgripsiynau, rhoi'r feddyginiaeth a rhoi cyfarwyddiadau ar gyfer rhoi cyffuriau a reolir o Atodlenni 2, 3, 4 a 5. Mae hyn yn cynnwys diamorffin hydroclorid, dipipanon, neu gocên i drin clefyd organig neu anaf, ond nid i drin dibyniaeth.

Rhaid i Ddarparwyr Presgripsiynau Annibynnol sy'n Fferyllwyr weithio o fewn eu cymhwysedd proffesiynol a'u cwmpas ymarfer.

Bydd yr holl fferyllwyr sydd newydd gymhwyso ac yn ymuno â chofrestr y Cyngor Fferyllol Cyffredinol o fis Awst 2026 yn ddarparwyr presgripsiynau annibynnol.

## Optometryddion

---

Mae darparwyr presgripsiynau annibynnol sy'n optometryddion yn gallu rhoi presgripsiwn ar gyfer unrhyw feddyginiaeth drwyddedig i drin cyflyrau ocwlar sy'n effeithio ar y llygaid a'r meinweoedd o amgylch y llygaid, ac eithrio cyffuriau a reolir neu feddyginiaethau i'w rhoi drwy'r gwythiennau.

Gall pob optometrydd gyflenwi a rhoi meddyginiaethau yn eu cwmpas ymarfer proffesiynol, o restr gyfyngedig o feddyginiaethau a nodir yn [Atodlen 17 Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012](#).

## Ffisiotherapyddion

---

Gall darparwyr presgripsiynau annibynnol sy'n ffisiotherapyddion ddarparu presgripsiwn ar gyfer unrhyw feddyginiaeth i drin unrhyw gyflwr meddygol yn eu maes cymhwysedd. Mae hyn yn cynnwys darparu meddyginiaethau all-drwydded.

Mae darparwyr presgripsiynau annibynnol sy'n ffisiotherapyddion yn cael rhoi presgripsiynau o restr gyfyngedig o gyffuriau a reolir (morffin i'w gymryd drwy'r geg neu drwy bigiad, ffentanyl drwy'r croen a diazepam drwy'r geg, dihydrocodin tartrad, lorazepam, ocsicodon hydroclorid a temazepam).

Gall ffisiotherapyddion sy'n ddarparwyr presgripsiynau atodol roi cyffuriau eraill a reolir ar bresgripsiwn ond dim ond pan maent yn rhan o gynllun rheoli clinigol claf y mae'r meddyg neu'r deintydd wedi cytuno arno.

## Podiatryddion

---

Gall darparwyr presgripsiynau annibynnol sy'n bodiatryddion ddarparu presgripsiwn ar gyfer unrhyw feddyginiaeth i drin unrhyw gyflwr meddygol yn eu maes cymhwysedd. Mae hyn yn cynnwys darparu meddyginiaethau all-drwydded.

Mae darparwyr presgripsiynau annibynnol sy'n bodiatryddion yn gallu rhoi presgripsiwn o restr gyfyngedig o gyffuriau a reolir (diazepam, dihydrocodin tartrad, lorazepam a temazepam) i'w cymryd drwy'r geg yn unig.



## Parafeddygon

---

Gall darparwyr presgripsiynau annibynnol sy'n barafeddygon ddarparu presgripsiwn ar gyfer unrhyw feddyginiaeth i drin unrhyw gyflwr meddygol yn eu maes cymhwysedd. Mae hyn yn cynnwys darparu meddyginiaethau all-drwydded.

Mae darparwyr presgripsiynau annibynnol sy'n barafeddygon yn gallu rhoi presgripsiwn ar gyfer ystod gyfyngedig o gyffuriau a reolir (morffin sylffad i'w gymryd drwy'r geg neu drwy bigiad, diazepam i'w gymryd drwy'r geg neu drwy bigiad, midazolam i'w gymryd yn orofwcosol neu drwy bigiad, lorazepam drwy bigiad, a chodin ffosffad drwy'r geg).

## Radiograffwyr therapiwtig

---

Gall darparwyr presgripsiynau annibynnol sy'n radiograffwyr therapiwtig ddarparu presgripsiwn ar gyfer unrhyw feddyginiaeth i drin unrhyw gyflwr meddygol yn eu maes cymhwysedd. Mae hyn yn cynnwys darparu meddyginiaethau all-drwydded.

Mae darparwyr presgripsiynau annibynnol sy'n radiograffwyr therapiwtig yn gallu rhoi presgripsiwn ar gyfer ystod gyfyngedig o gyffuriau a reolir (tramadol, diazepam, lorazepam, ocsicodon a chodin ffosffad i'w cymryd drwy'r geg bob un, a morffin sylffad i'w gymryd drwy'r geg neu drwy bigiad).

## Radiograffwyr diagnostig

---

Gall darparwyr presgripsiynau annibynnol sy'n radiograffwyr diagnostig ddarparu presgripsiwn ar gyfer unrhyw feddyginiaeth i drin unrhyw gyflwr meddygol mewn partneriaeth â meddyg neu ddeintydd yn unol â chynllun rheoli

clinigol y cytunwyd arno. Mae hyn yn cynnwys meddyginiaeth drwyddedig neu ddirwydded a chyffuriau a reolir.

## Dietegwyr

---

Gall darparwyr presgripsiynau annibynnol sy'n ddietegwyr ddarparu presgripsiwn ar gyfer unrhyw feddyginiaeth i drin unrhyw gyflwr meddygol mewn partneriaeth â meddyg neu ddeintydd yn unol â chynllun rheoli clinigol y cytunwyd arno. Mae hyn yn cynnwys meddyginiaethau trwyddedig neu ddirwydded a chyffuriau a reolir.

## Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill

---

Ar adeg cyhoeddi'r ddogfen hon, nid oes gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar wahân i'r rhai a restrir uchod hawl i roi meddyginiaethau ar bresgripsiwn. Gall rhai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, er enghraifft therapyddion galwedigaethol a hylenywyr deintyddol, gyflenwi a rhoi rhai meddyginiaethau heb bresgripsiwn, o dan Gyfarwyddyd Grŵp Cleifion (PGD). Gellir dod o hyd i wybodaeth am ba weithwyr proffesiynol sy'n gallu gweithio dan drefn PGD ar [www.gov.uk/government/publications/patient-group-directions-pgds/patient-group-directions-who-can-use-them](http://www.gov.uk/government/publications/patient-group-directions-pgds/patient-group-directions-who-can-use-them).

Ni all **cymdeithion meddygol** na **chymdeithion anesthesia** roi meddyginiaethau ar bresgripsiwn, na chyflenwi meddyginiaethau na'u rhoi i gleifion dan drefn PGD.

# Categoriâu darparwyr presgripsiynau anfeddygol

---

## Darparwyr presgripsiynau atodol

---

Dyma sut mae Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain (BNF) yn diffinio darparu presgripsiynau atodol:

partneriaeth wirfoddol rhwng darparwr presgripsiynau annibynnol (meddyg neu ddeintydd) a darparwr presgripsiynau atodol, er mwyn darparu presgripsiynau gan weithredu cynllun rheoli clinigol yn benodol ar gyfer claf, gyda chytundeb y claf hwnnw.

Dim ond mewn partneriaeth â meddyg neu ddeintydd y gall darparwyr atodol ddarparu presgripsiynau. Y meddyg neu'r deintydd sy'n gyfrifol am y diagnosis a gosod paramedrau'r cynllun rheoli clinigol (gweler atodiad un).

Gall pob darparwr atodol ddarparu presgripsiynau ar gyfer unrhyw gyflwr meddygol ar yr amod eu bod yn gweithredu'n unol â chynllun rheoli clinigol y cytunwyd arno ar gyfer claf unigol.

Prif fwriad darparu presgripsiynau atodol yw rheoli cyflyrau meddygol cronig; fodd bynnag, gellir trin cyfnodau aciwt sy'n digwydd o fewn cyflyrau cronig, ar yr amod bod hyn wedi'i gynnwys yn y cynllun rheoli clinigol.

Nid yw darparwyr atodol wedi'u cyfyngu i restr gyfyngedig, a gallant ddarparu unrhyw feddyginiaethau y gellid eu rhoi ar bresgripsiwn yn y GIG, ar yr amod eu bod wedi'u cynnwys yng

ngynllun rheoli clinigol y claf. Mae hyn yn cynnwys:

- Pob meddyginiaeth ar y Rhestr Werthu Gyffredinol (GSL), meddyginiaethau fferyllfa (P), offer a dyfeisiau, bwydydd a sylweddau ffiniol eraill a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Cynghori ar Sylweddau Ffiniol (ACBS);
- Pob Meddyginiaeth Bresgripsiwn yn Unig (POM) gan gynnwys cyffuriau a reolir (ac eithrio'r rhai a restrir yn Atodlen 1 Rheoliadau Camddefnyddio Cyffuriau 2001 – nad ydynt wedi'u bwriadu at ddefnydd meddyginiaethol);
- Meddyginiaethau i'w defnyddio y tu hwnt i'r dangosyddion a nodir ar eu trwyddedau (hynny yw, darparu presgripsiynau all-drwydded), cyffuriau triongl du, a chyffuriau y mae'r BNF yn nodi eu bod yn 'llai addas i'w rhoi ar bresgripsiwn'.

Mae'n arfer da peidio â rhoi cyffuriau didrwydded ar bresgripsiwn oni bai eu bod yn rhan o dreial clinigol sydd â thystysgrif neu eithriad treial clinigol.

Rhaid i ddarparwyr presgripsiynau atodol gydymffurfio â'r safonau a osodir gan eu rheoleiddwyr a'u cyrff arweinyddiaeth proffesiynol. Os nad ydynt yn teimlo'n gymwys i ddarparu rhyw feddyginiaeth ar bresgripsiwn, ni ddylent wneud hynny.

Ni ddylai darparwyr atodol ddarparu presgripsiynau ar eu cyfer hwy eu hunain na'u teuluoedd.

## Darparwyr presgripsiynau sy'n nyrsys cymunedol

---

Ar ôl cwblhau rhaglen ymarferwyr arbenigol cymunedol sy'n cynnwys darparu presgripsiynau ar gyfer nyrsys cymunedol (v100, v150), gall nyrsys cofrestredig roi meddyginiaethau ar bresgripsiwn o'r NPF ar gyfer ymarferwyr cymunedol. Mae'r rhestr hon yn cynnwys dresinau, offer a rhestr gyfyngedig o feddyginiaethau sy'n berthnasol i nyrsio cymunedol, ymweliadau iechyd ac ymarfer nyrsio iechyd cyhoeddus.

Mae deddfwriaeth yng Nghymru yn nodi y dylid defnyddio'r term "community nurse independent prescriber" ar gyfer y categori hwn o ddarparwyr presgripsiynau.

## Darparwyr presgripsiynau annibynnol

---

Dyma sut mae'r BNF yn diffinio darparwyr presgripsiynau annibynnol:

Ymarferwyr sy'n gyfrifol ac yn atebol am asesu cleifion sydd â diagnosis o gyflwr eisoes neu sydd â chyflwr heb ddiagnosis. Maen nhw'n gyfrifol ac yn atebol hefyd am benderfyniadau ynghylch y rheolaeth glinigol sydd ei hangen, gan gynnwys rhoi presgripsiynau.

Ar adeg cyhoeddi'r canllawiau hyn, dim ond nyrsys cofrestredig, fferyllwyr, optometryddion, ffisiotherapyddion, podiatryddion, radiograffwyr therapiwtig a pharafeddygon all hyfforddi a gweithio fel darparwyr presgripsiynau annibynnol.

Mae Nyrsys Cofrestredig, fferyllwyr, ffisiotherapyddion, podiatryddion, radiograffwyr therapiwtig a pharafeddygon sy'n ddarparwyr annibynnol yn gallu darparu unrhyw feddyginiaeth drwyddedig ar bresgripsiwn<sup>1</sup> (sef cynhyrchion gydag awdurdodiad marchnata yn y Deyrnas Unedig) i drin unrhyw gyflwr meddygol, o fewn eu cymhwysedd. Er y gall ffisiotherapyddion, podiatryddion a radiograffwyr ddarparu unrhyw feddyginiaeth drwyddedig ar bresgripsiwn, dim ond ar gyfer cyflyrau yr ystyrir yn gyffredinol eu bod yn eu maes proffesiynol y dylent wneud hynny.

Mae gan Nyrsys Cofrestredig, fferyllwyr a pharafeddygon gwmpas ehangach o ymarfer proffesiynol posib, ac felly byddant o reidrwydd yn darparu presgripsiynau ar draws nifer o feysydd therapiwtig.

Mae darparwyr annibynnol sy'n optometryddion yn gallu rhoi presgripsiwn ar gyfer unrhyw feddyginiaeth drwyddedig i drin cyflyrau sy'n effeithio ar y llygaid a'r meinweoedd o amgylch y llygaid, ac eithrio cyffuriau a reolir neu feddyginiaethau i'w rhoi drwy'r gwythiennau.

Mae pob darparwr presgripsiynau annibynnol hefyd yn gallu gweithredu fel darparwr atodol.

---

<sup>1</sup> Mae cyfyngiadau ar ddarparu cyffuriau a reolir ar bresgripsiwn gan ffisiotherapyddion, podiatryddion, radiograffwyr a pharafeddygon fel y disgrifiwyd yn gynharach.

# Darparu presgripsiynau o fewn cymhwysedd proffesiynol

---

Rhaid i bob darparwr presgripsiynau, p'un a ydynt yn ddarparwr annibynnol neu atodol, weithio o fewn eu cymhwysedd a'u harbenigedd proffesiynol eu hunain. Dylent ofyn am gyngor ac atgyfeirio'n briodol at weithwyr proffesiynol eraill pan fydd pobl angen presgripsiynau mewn meysydd therapiwtig y tu allan i'w harbenigedd. Mae pob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn atebol am eu gweithredoedd eu hunain, rhaid iddynt fod yn ymwybodol o gyfyngiadau eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u cymhwysedd a dylent bob amser weithio o fewn cwmpas eu hymarfer.

# Meddyginiaethau ac offer y gellir eu rhoi ar bresgripsiwn gan ddarparwyr anfeddygol

	<b>Meddyginiaethau trwyddedig ar gyfer y dangosyddion ar eu trwyddedau</b>	<b>Meddyginiaethau trwyddedig ar gyfer dangosyddion all-drwydded</b>	<b>Meddyginiaethau didrwydded</b>	<b>Cyffuriau a reolir</b>
Nyrs Gofrestredig	le	le	le	le, ac eithrio'r rhai yn Atodlen 1 Rheoliadau Camddefnyddio a Chyffuriau 2001, a diamorffin, dipipanon neu gocên ar gyfer trin dibyniaeth
Fferyllydd	le	le	le	le, ac eithrio'r rhai yn Atodlen 1 Rheoliadau Camddefnyddio a Chyffuriau 2001, a diamorffin, dipipanon neu gocên ar gyfer trin dibyniaeth
Optometrydd	le	le	Na	Na
Parafeddyg	le	le	Na	le, ond dim ond: morffin sylffad a diazepam ar gyfer cymryd drwy'r geg neu drwy bigiad, midazolam ar gyfer cymryd yn orofwcosol neu drwy bigiad, lorazepam drwy bigiad, a chodin ffosffad drwy'r geg
Radiograffydd therapiwtig	le	le	Na	le, ond dim ond: diazepam, tramadol, ocsicodon, lorazepam a chodin ffosffad i'w cymryd drwy'r geg bob un, a morffin sylffad i'w gymryd drwy'r geg neu drwy bigiad

	<b>Meddyginiaethau trwyddedig ar gyfer y dangosyddion ar eu trwyddedau</b>	<b>Meddyginiaethau trwyddedig ar gyfer dangosyddion all-drwydded</b>	<b>Meddyginiaethau didrwydded</b>	<b>Cyffuriau a reolir</b>
Nyrs gymunedol	Dim ond cynhyrchion sydd wedi'u cynnwys yn yr NPF	Na, gydag eithriad sef y gellir rhoi presgripsiwn ar gyfer nystatin at ddefnydd newydd-anedig	Na	Na
Podiatrydd	le	le	Na	le, ond dim ond: diazepam, dihydrocodin, lorazepam, a temazepam, i'w cymryd drwy'r geg
Ffisiotherapydd	le	le	Na	le, ond dim ond: diazepam, dihydrocodin, lorazepam, morffin, ocsicodon, a temazepam, i'w cymryd drwy'r geg; morffin i'w gymryd drwy bigiad; a ffentanyl i'w gymryd drwy'r croen
Darparwr presgripsiynau atodol (yn unol â chynllun rheoli clinigol)	le	le	le	le

## Darparu presgripsiwn ar gyfer meddyginiaethau didrwydded

---

Mae meddyginiaeth ddidrwydded yn un nad oes ganddi awdurdodiad marchnata dilys yn y Deyrnas Unedig nac yn yr Undeb Ewropeaidd, sef trwydded sy'n diffinio'r amgylchiadau clinigol y gellir defnyddio'r feddyginiaeth ynddynt.

Dim ond o fewn fframwaith polisi lleol ar gyfer meddyginiaethau didrwydded y dylid rhoi presgripsiwn ar gyfer meddyginiaethau didrwydded. Rhaid i'r polisi lleol gael ei ddatblygu a'i gymeradwyo drwy bwyllgor cyffuriau a therapiwtig sefydliad, pwyllgor presgripsiynau ardal neu gorff tebyg. Dylai'r polisi nodi bod angen arweiniad a thystiolaeth glinigol awdurdodol i gefnogi penderfyniadau unglŷn â phresgripsiynau yn y maes hwn, a dylai gynnwys tystiolaeth sy'n nodi pwysigrwydd sy'n atebol ac yn gyfrifol. Dylai'r polisi gyfeirio at safonau'r cyrff proffesiynol perthnasol a'r angen am gydsyniad y cleifion lle bo hynny'n briodol.

Mae darparwyr presgripsiynau'n derbyn cyfrifoldeb proffesiynol, clinigol a chyfreithiol am ddarparu presgripsiynau didrwydded.

Gall darparwyr atodol roi meddyginiaethau didrwydded ar bresgripsiwn ar yr amod bod hynny'n unol â chynllun rheoli clinigol claf.

## Cymysgu meddyginiaethau

---

Cymysgu yw cyfuno dau neu fwy o gynhyrchion meddyginiaethol gyda'i gilydd at ddibenion eu rhoi i glaf penodol i ddiwallu eu hanghenion. Nid yw cymysgu yn cynnwys hydoddi, gwasgaru, gwanhau neu gymysgu'r cynnyrch mewn neu gyda rhyw sylwedd arall a ddefnyddir dim ond fel cyfrwng at ddiben rhoi'r cynnyrch i'r claf.

Mae'r broses gymysgu yn cynhyrchu cynnyrch didrwydded a rhaid rhoi presgripsiynau ar gyfer cynhyrchion o'r fath yn unol â pholisi meddyginiaethau didrwydded y sefydliad.

Caniateir i ddarparwyr presgripsiynau annibynnol sy'n Nyrsys Cofrestredig ac yn fferyllwyr gymysgu meddyginiaethau a chyfarwyddo eraill i gymysgu meddyginiaethau. Caniateir i ddarparwyr presgripsiynau annibynnol sy'n ffisiotherapyddion gymysgu meddyginiaethau trwyddedig o fewn cyfyngiadau eu hymarfer proffesiynol.

Gall darparwr presgripsiynau atodol gymysgu meddyginiaethau a chyfarwyddo eraill i gymysgu meddyginiaethau, os yw cymysgu meddyginiaethau yn rhan o'r cynllun rheoli clinigol ar gyfer claf unigol.

## Meddyginiaethau all-drwydded

---

Defnydd all-drwydded (*off-label*) yw'r sefyllfaoedd lle defnyddir meddyginiaeth mewn ffordd sy'n wahanol i'r ffordd a ddisgrifir yn ei hawdurdodiad marchnata. Mae enghreifftiau o ddefnydd all-drwydded yn cynnwys defnyddio meddyginiaeth ar gyfer salwch gwahanol i'r hyn a nodir yn y drwydded, defnyddio meddyginiaeth gyda grŵp oedran y tu allan i'r ystod drwyddedig (sef plant neu'r henoed fel arfer), neu ddefnyddio meddyginiaeth ar ddos uwch na'r hyn a nodir yn y drwydded.

Gall darparwyr annibynnol ddarparu presgripsiynau ar gyfer meddyginiaethau at ddefnydd y tu allan i'w dangosyddion trwyddedig (fel y'u nodir yn yr awdurdodiad marchnata yn y Deyrnas Unedig neu'r Undeb Ewropeaidd) lle mae hynny'n arfer clinigol derbyniol, neu fel arall, lle mae cyfiawnhad clir dros ddarparu presgripsiwn y tu allan i'r dangosyddion neu'r dosau yn y drwydded.

Dylai sefydliadau fod â pholisi wedi'i gymeradwyo ar gyfer darparu presgripsiynau all-drwydded. Dylai'r polisi nodi bod angen arweiniad a thystiolaeth glinigol awdurdodol i gefnogi penderfyniadau ynglŷn â phresgripsiynau. Wrth ddarparu presgripsiwn all-drwydded, mae'r darparwr anfeddygol yn derbyn cyfrifoldeb proffesiynol, clinigol a chyfreithiol am unrhyw niwed sy'n deillio o glaf yn defnyddio'r feddyginiaeth yn unol â'r presgripsiwn. Mae hyn yn golygu mai dim ond pan fo hynny'n arfer clinigol derbyniol y dylai darparwyr annibynnol ddarparu presgripsiynau all-drwydded.

Wrth roi meddyginiaethau ar bresgripsiwn at ddefnydd all-drwydded, dylai'r darparwr esbonio'r angen am y feddyginiaeth i'r claf neu gynrychiolydd y claf (e.e. rhiant neu warcheidwad). Pan na all claf gydsynio i'r defnydd all-drwydded, dylai'r darparwr presgripsiynau weithredu'n unol â'u harfer proffesiynol ac o fewn polisi'r sefydliad sy'n eu cyflogi.

Gall darparwyr atodol roi meddyginiaethau all-drwydded ar bresgripsiwn ar yr amod bod presgripsiynau o'r fath yn unol â chynllun rheoli clinigol claf.

## Offer, dresinau a sylweddau ffiniol

---

Gall darparwyr presgripsiynau annibynnol sy'n Nyrsys Cofrestredig a fferyllwyr ddarparu presgripsiwn ar gyfer unrhyw offer a dresinau a restrir yn [Rhan IX y Tariff Cyffuriau](#).

Mewn gofal eilaidd, nid yw nyrsys cofrestredig a fferyllwyr sy'n rhoi presgripsiynau wedi'u cyfyngu i offer/dresinau o Ran IX y Tariff Cyffuriau wrth ddarparu presgripsiynau o fewn ysbyty, ond dylent ystyried polisiau fformiwlâu lleol a'r goblygiadau ar gyfer gofal sylfaenol.

Mewn gofal sylfaenol, mae angen i ddarparwyr presgripsiynau'r GIG gydymffurfio â'r telerau gwasanaeth y maent yn gweithredu oddi tanynt. Gellir rhoi sylweddau ffiniol ar bresgripsiwn mewn amgylchiadau penodol ond bydd angen nodi "ACBS" ar y presgripsiwn i gadarnhau ei fod wedi'i ddarparu'n unol â'r amodau a osodwyd gan y Pwyllgor Cynghori ar Sylweddau Ffiniol (ACBS). Gellir dod o hyd i gynhyrchion a gymeradwyir yn [Rhan XV y Tariff Cyffuriau](#).

Yn gyffredinol, dim ond sylweddau ffiniol ar restr gymeradwy ACBS y dylai darparwyr anfeddygol eu rhoi ar bresgripsiwn, gan ystyried canllawiau perthnasol y sefydliad sy'n eu cyflogi.



# Addysg a hyfforddiant

---

Mae angen i **Nyrsys Cofrestredig, fferyllwyr, podiatryddion, ffisiotherapyddion, radiograffwyr therapiwtig, dietegwyr a pharafeddygon** ymgymryd â rhaglen astudio ychwanegol er mwyn dod yn ddarparwyr presgripsiynau annibynnol neu atodol.

Mae'r rhain yn rhaglenni aml-broffesiynol sy'n arwain at gymhwyster fel darparwr presgripsiynau annibynnol neu atodol. Mae rhai rhaglenni'n benodol i broffesiwn, ond gallant gynnwys elfennau o ddysgu rhyngbroffesiynol.

Yng Nghymru darperir cwrs darparu presgripsiynau annibynnol yn benodol ar gyfer optometryddion gan yr Ysgol Optometreg a Gwyddorau'r Golwg, Prifysgol Caerdydd. Mae ysgolion optometreg eraill hefyd yn darparu cyrsiau darparu presgripsiynau annibynnol ar gyfer optometryddion. Gellir gweld manylion yn [Sut i gael cymhwyster darparu presgripsiynau annibynnol \(IP\) – Coleg yr Optometryddion \(college-optometrists.org\)](#).

Mae pob rhaglen yn gofyn am achrediad gan y cyrff rheoleiddio proffesiynol perthnasol:

- Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC) ar gyfer fferyllwyr;
- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) ar gyfer nyrsys a bydwreded;
- Y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) ar gyfer optometryddion;
- Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) ar gyfer y Proffesiynau Iechyd Perthynol (AHP) a Gwyddonwyr Gofal Iechyd.

## Rhaglenni paratoi addysg yng Nghymru

---

Mae'r sefydliadau addysg a gymeradwyr canlynol yng Nghymru yn darparu rhaglenni addysg darparu presgripsiynau annibynnol neu atodol:

### Prifysgol De Cymru

[www.southwales.ac.uk/cymraeg/astudio/pynciau/graddau-nyrsio/cyrsiau-iechyd-dpp/presgripsiynu-annibynnol/](http://www.southwales.ac.uk/cymraeg/astudio/pynciau/graddau-nyrsio/cyrsiau-iechyd-dpp/presgripsiynu-annibynnol/)

### Prifysgol Bangor

Nyrsys, Proffesiynau Iechyd Perthynol a Radiograffwyr:

[www.bangor.ac.uk/cy/courses/postgraduate-taught/presgripsiynu-annibynnol](http://www.bangor.ac.uk/cy/courses/postgraduate-taught/presgripsiynu-annibynnol)

Fferyllwyr:

[www.bangor.ac.uk/cy/courses/postgraduate-taught/presgripsiynu-ifferyllwyr](http://www.bangor.ac.uk/cy/courses/postgraduate-taught/presgripsiynu-ifferyllwyr)

### Prifysgol Caerdydd

Fferyllwyr:

[www.cardiff.ac.uk/cy/study/postgraduate/taught/standalone-modules/pharmacist-independent-prescribing](http://www.cardiff.ac.uk/cy/study/postgraduate/taught/standalone-modules/pharmacist-independent-prescribing)

Nyrsys, Proffesiynau Iechyd Perthynol a Radiograffwyr:

[www.cardiff.ac.uk/cy/study/postgraduate/taught/courses/course/advanced-practice-non-medical-prescribing-pgcert-part-time](http://www.cardiff.ac.uk/cy/study/postgraduate/taught/courses/course/advanced-practice-non-medical-prescribing-pgcert-part-time)

Optometryddion:

[www.cardiff.ac.uk/cy/study/postgraduate/taught/courses/course/therapeutic-prescribing-for-optometrists](http://www.cardiff.ac.uk/cy/study/postgraduate/taught/courses/course/therapeutic-prescribing-for-optometrists)

**Prifysgol Abertawe**

Nyrsio/Bydwreigiaeth:

[www.swansea.ac.uk/cy/ol-raddedig/addysgir/iechyd-gofal-cymdeithasol/rhagnodi-an-feddygol-i-nyrsys-a-bydwragedd-pgcert/](http://www.swansea.ac.uk/cy/ol-raddedig/addysgir/iechyd-gofal-cymdeithasol/rhagnodi-an-feddygol-i-nyrsys-a-bydwragedd-pgcert/)

Fferyllwyr:

[www.swansea.ac.uk/cy/ol-raddedig/addysgir/iechyd-gofal-cymdeithasol/rhagnodi-anfeddygol-i-fferyllwyr-pgcert/](http://www.swansea.ac.uk/cy/ol-raddedig/addysgir/iechyd-gofal-cymdeithasol/rhagnodi-anfeddygol-i-fferyllwyr-pgcert/)

Proffesiynau Iechyd Perthynol a Radiograffwyr:

[www.swansea.ac.uk/cy/ol-raddedig/addysgir/iechyd-gofal-cymdeithasol/rhagnodi-anfeddygol-gweithwyr-proffesiynol-pgcert/](http://www.swansea.ac.uk/cy/ol-raddedig/addysgir/iechyd-gofal-cymdeithasol/rhagnodi-anfeddygol-gweithwyr-proffesiynol-pgcert/)

**Prifysgol Glyndŵr**

[www.wrexham.ac.uk/cy/cyrsiau/cyrsiau-ol-raddedig/rhagnodi-ar-gyfer-nyrsys/](http://www.wrexham.ac.uk/cy/cyrsiau/cyrsiau-ol-raddedig/rhagnodi-ar-gyfer-nyrsys/)

**Y Brifysgol Agored**

[www.open.ac.uk/postgraduate/modules/k803](http://www.open.ac.uk/postgraduate/modules/k803)

Mae rhaglenni darparu presgripsiynau annibynnol ac atodol yn cynnig dysgu cyfunol ac yn cynnwys ystod o addysgu wyneb yn wyneb ac ar-lein, a dysgu hunangyfeiriedig ac ymarferol. Gall yr asesu gynnwys amrywiaeth o ddulliau megis asesiadau ymarfer, arholiad clinigol strwythuredig gwrthrychol, rhifedd ac asesiad ysgrifenedig academaidd ac arholiadau ysgrifenedig.

Am fanylion cynnwys, cwricwlwm a meini prawf derbyn y rhaglenni addysg, cysylltwch â'r Sefydliad Addysg a Gymeradwyir yn uniongyrchol. Fel arall, gellir cael rhagor o wybodaeth gan y cyrff rheoleiddio perthnasol:

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC):  
[www.nmc.org.uk/standards/standards-for-post-registration/standards-for-prescribers/](http://www.nmc.org.uk/standards/standards-for-post-registration/standards-for-prescribers/)

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC):  
[www.pharmacyregulation.org/education/pharmacist-independent-prescriber](http://www.pharmacyregulation.org/education/pharmacist-independent-prescriber)

Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC):  
[www.hcpc-uk.org/standards/standards-relevant-to-education-and-training/standards-for-prescribing/](http://www.hcpc-uk.org/standards/standards-relevant-to-education-and-training/standards-for-prescribing/)

Y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC):  
[www.optical.org/en/education-and-cpd/education/post-registration-qualifications/](http://www.optical.org/en/education-and-cpd/education/post-registration-qualifications/)

# Goruchwyllo mewn hyfforddiant a rôl Ymarferwyr Darparu Presgripsiynau Dynodedig

---

Yn ystod eu hyfforddiant darparu presgripsiynau annibynnol, rhaid i hyfforddeion ymgymryd â chyfnod o ddysgu'n seiliedig ar ymarfer i atgyfnerthu a chyd-destunoli'r dysgu academaidd a ddarperir gan ddarparwr eu rhaglen hyfforddi. Mae'r Cyfnod Dysgu wrth Ymarfer (PLP) hwn yn galluogi'r dysgwr i roi theori ar waith; i ddatblygu a dangos cymhwysedd fel darparwr presgripsiynau o dan oruchwyliaeth ymarferydd darparu presgripsiynau profiadol.

Yn hanesyddol, mae meddygon wedi darparu'r oruchwyliaeth hon fel ymarferwyr meddygol goruchwyllo dynodedig (DSMPs) sy'n gyfrifol am ganfod a yw hyfforddeion wedi cyflawni'r deilliannau dysgu angenrheidiol ac wedi ennill y cymwyseddau a ddiffinnir gan y cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol perthnasol a'r Sefydliad Addysg a Gymeradwyir (AEI) sy'n cynnal y rhaglen darparu presgripsiynau.

Mae newidiadau i reoleiddio proffesiynol wedi galluogi rhai darparwyr presgripsiynau annibynnol i ymgymryd â rôl ymarferydd goruchwyllo dynodedig ar gyfer y Cyfnod Dysgu wrth Ymarfer (PLP), yn ogystal â meddygon. Mae'r newidiadau rheoliadol hyn yn gwella mynediad at gyfleoedd hyfforddi i'r rhai sy'n gymwys i ddarparu presgripsiynau, gyda'r potensial i gynyddu nifer y darparwyr presgripsiynau annibynnol. Mae'r Cyfnod Dysgu wrth Ymarfer (PLP) yn hanfodol i ddatblygu darparwyr presgripsiynau diogel ac effeithiol. Mae rôl yr ymarferydd dynodedig yn ganolog i'r Cyfnod, ac o'r herwydd mae sicrhau ansawdd y rôl hon yn

hanfodol. Pan fo darparwyr presgripsiynau anfeddygol yn goruchwyllo hyfforddai, fe'u gelwir yn Ymarferwyr Darparu Presgripsiynau Dynodedig (DPP).

Dyma sut mae [Fframwaith Cymwyseddau ar gyfer Ymarferwyr Darparu Presgripsiynau Dynodedig](#) y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS) yn disgrifio nod rôl DPP:

Goruchwyllo, cefnogi ac asesu cymhwysedd hyfforddeion darparu presgripsiynau anfeddygol, mewn cydweithrediad â phartneriaid academaidd a phartneriaid y gweithle, yn ystod y cyfnod dysgu wrth ymarfer.

Term ymbarél yw DPP a ddefnyddir i ddod â nifer o deitlau gwahanol sy'n benodol i broffesiynau gwahanol at ei gilydd. Dyma'r teitlau a ddefnyddir gan reoleiddwyr proffesiynol ac sy'n cael eu cynnwys yn y term Ymarferydd Darparu Presgripsiynau Dynodedig (DPP) yng nghyd-destun hyfforddiant darparu presgripsiynau:

- Ymarferydd Meddygol Dynodedig (DMP);
- Ymarferydd Darparu Presgripsiynau Dynodedig (DPP);
- Goruchwylwr Ymarfer;
- Asesydd Ymarfer; ac
- Addysgwr Ymarfer.

Mae'r RPS hefyd wedi datblygu [fframwaith](#) cefnogol ar gyfer Ymarferwyr Darparu Presgripsiynau Dynodedig sy'n ddefnyddiol wrth ystyried y rolau a'r cyfrifoldebau hyn.

# Fframwaith cymwyseddau ar gyfer pob darparwr presgripsiynau

---

Mae'r RPS yn rheoli'r fframwaith cymwyseddau ar ran yr holl broffesiynau darparu presgripsiynau yn y Deyrnas Unedig gan gynnwys yng Nghymru. Cyhoeddwyd y fframwaith cymwyseddau am y tro cyntaf gan yr RPS yn 2016.

Yn 2021 diweddarwyd y [fframwaith](#) yn dilyn adolygiad a newidiadau deddfwriaethol i ddarparu presgripsiynau. Mae wedi'i fabwysiadu gan bob corff rheoleiddio proffesiynol, ac mae'n sail i asesu cymhwysedd darparu presgripsiynau gan bob sefydliad addysgol yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r fframwaith yn nodi sut beth yw darparu presgripsiynau da ac mae'n cynnig strwythur sy'n disgrifio'r wybodaeth, y sgiliau, y nodweddion, y rhinweddau a'r ymddygiadau y gellir eu harddangos ac sy'n ganolog i berfformiad diogel ac effeithiol mewn rôl darparu presgripsiynau.

Mae'n fframwaith generig ar gyfer pob darparwr presgripsiynau, ond rhaid iddo gael ei gyd-destunoli i adlewyrchu gwahanol feysydd ymarfer, lefelau arbenigedd a lleoliadau.

# Datblygiad Proffesiynol Parhaus

---

Mae gan bob ymarferydd gofal iechyd cofrestredig gyfrifoldeb proffesiynol i aros yn ymwybodol o'r datblygiadau clinigol a phroffesiynol diweddaraf. Mae hyn yn cynnwys darparu presgripsiynau. Mae gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru Safonau ar gyfer Sicrhau Cymhwyseddau Darparwyr Presgripsiynau Anfeddygol yng Nghymru, sy'n nodi bod gofyn i bob darparwr presgripsiynau anfeddygol ddarparu tystiolaeth o'u cymhwysedd parhaus i ddarparu presgripsiynau drwy gynnal portffolio tystiolaeth. Bydd hyn yn cynnwys cofnodion datblygiad proffesiynol parhaus a gweithgareddau proffesiynol eraill.

Mae'n ofynnol i ddarparwyr presgripsiynau ddangos datblygiad proffesiynol parhaus yn eu maes ymarfer darparu presgripsiynau. Gallai hyn gynnwys ymgymryd â rhaglenni addysg a hyfforddiant parhaus neu astudio hunangyfeiriedig.

Bydd gofyn i ddarparwyr presgripsiynau annibynnol a/neu atodol gael yr wybodaeth ddiweddaraf am dystiolaeth ac arfer gorau wrth reoli'r cyflyrau y maent yn darparu presgripsiynau ar eu cyfer, ac wrth ddefnyddio'r meddyginiaethau perthnasol.

Dylai cyflogwyr sicrhau bod y darparwr presgripsiynau annibynnol neu atodol wedi cadw eu harfer darparu presgripsiynau'n berthnasol ac yn gyfredol, drwy broses arfarnu flynyddol a, lle bo angen, drwy ailddilysu. Mae gan gyflogwyr ddyletswydd i sicrhau bod gan ddarparwyr presgripsiynau fynediad at yr addysg a'r hyfforddiant perthnasol sy'n berthnasol i'w rôl.

# Ehangu cwmpas ymarfer

---

Mae yna adegau pan fydd angen i ddarparwyr presgripsiynau ehangu neu newid cwmpas eu hymarfer darparu. Gall yr adegau hyn gynnwys:

- Pan fônt yn hyderus o fewn cwmpas eu hymarfer darparu presgripsiynau presennol ond bod ganddynt nifer cyfyngedig o feddyginiaethau y maent yn eu darparu, a bod angen ehangu ar hynny.
- Pan fônt yn hyderus o fewn cwmpas eu hymarfer darparu presgripsiynau presennol ond eu bod yn nodi meysydd pellach a fyddai'n helpu i wella gofal cleifion, e.e. lle mai'r cwmpas cyfredol yw rheoli poen cronig, ond bod cyfran fawr o'r cleifion yn dioddef iechyd meddwl gwael ac y byddai rheoli cyflyrau iechyd meddwl fel iselder yn estyniad naturiol i'r rôl.
- Pan fo gwasanaeth newydd yn cael ei sefydlu, e.e. darparu presgripsiynau ar gyfer mân anhwylderau gynt, ond eisiau darparu presgripsiynau mewn gwasanaeth rheoli poen yn awr.

- Newid rôl.
- Newid lleoliad, e.e. symud o ofal sylfaenol i ofal eilaidd.

Mae'r RPS wedi datblygu canllawiau i helpu darparwyr presgripsiynau o bob proffesiwn ehangu cwmpas eu hymarfer yn ddiogel. Mae [Canllawiau Proffesiynol: Ehangu Cwmpas Ymarfer Darparu Presgripsiynau](#) yn cefnogi'r fframwaith cymwyseddau darparu presgripsiynau ac yn darparu strwythur i helpu darparwyr presgripsiynau i nodi eu hanghenion datblygu, tynnu sylw at ffyrdd y gellir eu bodloni, a chynnig arweiniad ar sut i gofnodi'r broses a'r canlyniadau.

# Cydweithio

---

Mae gweithio fel tîm yn hanfodol wrth sicrhau bod y claf yn derbyn gwasanaeth di-dor a bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill ar gael i ddarparu cyngor a gwasanaethau y tu allan i faes cymhwysedd ac arbenigedd darparwyr presgripsiynau anfeddygol unigol.

Dylai trefniadau fod ar waith er mwyn trafod achosion unigol, ac er mwyn atgyfeirio at staff meddygol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill.

## Darparu presgripsiynau atodol

---

- Gall meddyg neu ddeintydd weithio gydag un neu fwy o ddarparwyr presgripsiynau atodol.
- Gall darparwr presgripsiynau atodol weithio gydag un neu fwy o feddygon neu ddeintyddion.
- Yn y berthynas darparu presgripsiynau atodol, bydd y meddyg neu'r deintydd yn gyfrifol am:
  - asesiad clinigol cychwynnol a diagnosis y claf ac am gytuno ar gynllun rheoli clinigol gyda'r darparwr presgripsiynau atodol;
  - penderfynu pa feddyginiaethau y gall y darparwr presgripsiynau atodol eu rhoi gan gofio profiad a meysydd arbenigedd y darparwr atodol;
  - darparu cyngor a chymorth i'r darparwr presgripsiynau atodol yn ôl y gofyn;
  - cyfathrebu gyda'r darparwr presgripsiynau atodol yn ôl yr angen;
- rhannu cofnod y claf gyda'r darparwr presgripsiynau atodol;
- penderfynu pryd mae angen adolygiad clinigol ffurfiol;
- cynnal yr adolygiad clinigol ffurfiol ar yr adeg y cytunwyd arni, gyda'r darparwr presgripsiynau atodol yn ddelfrydol; ac
- adrodd am ddiwyddiadau niweidiol.

## Darparu presgripsiynau annibynnol

---

Bydd darparwyr presgripsiynau annibynnol sy'n Nyrsys Cofrestredig, fferyllwyr, optometryddion, ffisiotherapyddion, parafeddygon, podiatryddion neu radiograffwyr therapiwtig yn gweithio'n annibynnol ac yn gyfrifol am yr holl benderfyniadau darparu presgripsiynau yn eu maes cymhwysedd.

Mewn rhai achosion, efallai y bydd y meddyg neu'r deintydd eisoes wedi gwneud yr asesiad clinigol cychwynnol a'r diagnosis gan weithio mewn partneriaeth â'r darparwr presgripsiynau anfeddygol. Mewn achosion eraill, ni fydd hyn mewn lle a bydd gofyn i'r darparwr presgripsiynau annibynnol wneud yr asesiad a'r diagnosis. Am y rheswm hwn, dylai darparwyr annibynnol ddarparu presgripsiynau o fewn maes eu harbenigedd a'u cymhwysedd yn unig, a gweithredu mewn amgylchedd sy'n caniatáu atgyfeirio at weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill a derbyn cyngor ganddynt.

# Atebolrwydd cyfreithiol a phroffesiynol

---

## Indemniad proffesiynol

---

Rhaid i bob darparwr presgripsiynau sicrhau bod ganddynt yswiriant indemniad proffesiynol digonol sy'n berthnasol i'w hymarfer clinigol.

Mae'n rhaid i fferyllwyr gael indemniad proffesiynol ar waith er mwyn cael eu cofrestrriad proffesiynol gyda'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol.

Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn argymhell y dylai pob darparwr presgripsiynau sy'n nyrs neu'n fydwraig sicrhau bod yswiriant indemniad proffesiynol ganddi neu ganddo, drwy sefydliad proffesiynol neu gorff undeb llafur. Rhaid i ddarparwyr presgripsiynau hefyd fod yn ymwybodol o lefel yr yswiriant indemniad a gynigir gan eu hyswiriwr er mwyn penderfynu a yw'n ddigonol.

Mae Coleg yr Optometryddion o'r farn bod yn rhaid i bob darparwr presgripsiynau sy'n optometrydd sicrhau bod yswiriant indemniad proffesiynol ganddynt. Rhaid i optometryddion sicrhau bod eu hyswiriad indemniad yn eu diogelu ar gyfer cwmpas eu hymarfer darparu presgripsiynau.

Mae'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal yn nodi ei bod yn ofynnol i'r sawl sy'n cael eu cofrestru fod â threfniant indemniad proffesiynol ar waith fel amod o'u cofrestrriad.

## Atebolrwydd a chyfrifoldebau darparwyr presgripsiynau anfeddygol

---

Mae darparwyr anfeddygol yn atebol am eu holl benderfyniadau wrth ddarparu presgripsiynau ac unrhyw ganlyniadau sy'n deillio ohonynt. Felly, dim ond meddyginiaethau y maent yn gwybod sy'n ddiogel ac yn effeithiol i'r claf a'r cyflwr sy'n cael ei drin y dylent eu rhoi ar bresgripsiwn. Rhaid iddynt allu adnabod a delio â phwysau a gwrthdaro buddiannau a allai arwain at ddarparu presgripsiynau yn amhriodol.

Pan fo'r ymarferydd yn gymwys i weithio fel darparwr presgripsiynau atodol yn unig, ni ddylent ddarparu presgripsiynau y tu allan i'r cynllun rheoli clinigol y cytunwyd arno. Byddai gwneud hynny yn broblem llywodraethu clinigol i'w cyflogwr, comisiynydd neu reoleiddiwr proffesiynol ddelio â hi.

Yn ogystal, mae darparwyr presgripsiynau anfeddygol yn atebol yn broffesiynol i'w cyrff rheoleiddio proffesiynol priodol a rhaid iddynt weithredu yn unol â'r safonau proffesiynol a'r cod moeseg ac ymddygiad perthnasol.

Dylai pob darparwr presgripsiynau sicrhau bod ganddynt yswiriant indemniad proffesiynol digonol ar waith i gwmpasu'r gweithgareddau y maent yn ymgymryd â nhw fel rhan o'u rôl darparu presgripsiynau.



## Atebolrwydd a chyfrifoldebau cyflogwyr

Pan fo darparwr presgripsiynau anfeddygol sydd wedi'i hyfforddi'n briodol ac sydd wedi'i gymhwysu'n briodol yn rhoi presgripsiynau fel rhan o'i ddyletswyddau proffesiynol gyda chydysyniad ei gyflogwr, mae'r cyflogwr hefyd yn atebol am weithredoedd y darparwr presgripsiynau gan fod ganddo gyfrifoldeb drosto.

Er mwyn cefnogi'r broses hon, mae'r Safonau ar gyfer Sicrhau Cymhwysedd Darparwyr Presgripsiynau Anfeddygol yng Nghymru yn cefnogi dull "Unwaith i Gymru" wrth sicrhau ansawdd gweithlu'r darparwyr presgripsiynau anfeddygol yng Nghymru. Maent yn gosod y gofynion sylfaenol ar ddarparwyr presgripsiynau anfeddygol a'u cyflogwyr, o ran darparu tystiolaeth ac adolygu cymhwysedd i ddarparu presgripsiynau dros amser.

Mae fframwaith cymhwyseddau'r RPS yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal yr hyder a'r cymhwysedd i ddarparu presgripsiynau. Mae'r fframwaith yn nodi pwysigrwydd gallu dangos cymhwysedd i ddarparu presgripsiynau dros amser. Mae'r pwyntiau canlynol yn nodi'r gofynion sylfaenol er mwyn i ddarparwyr presgripsiynau anfeddygol ddangos eu cymhwysedd i ddarparu presgripsiynau dros amser:

Dylai'r cyflogwr a'r cyflogai (neu'r contractwr) sicrhau:

- bod gan y cyflogai y cymwysterau a'r gallu i ddarparu presgripsiynau yn y maes ymarfer dan sylw;
- bod disgrifiad swydd y cyflogai (neu'r trefniadau y cytunwyd arnynt gyda chontractwr) yn cynnwys datganiad clir bod angen darparu presgripsiynau fel rhan o ddyletswyddau'r swydd neu'r gwasanaeth hwnnw;
- bod y cyflogai a'r cyflogwr yn cynnal arfarniad ac adolygiad rheolaidd (blynyddol), gan gymryd rhan mewn gofynion ailddilysu;
- bod gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi'i gynnal ar gyfer y cyflogai o fewn amserlen ddigonol er mwyn nodi unrhyw weithgaredd troseddol a allai beryglu cleifion. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae rolau wedi newid o ganlyniad i gymwysterau darparu presgripsiynau.

Mae hefyd yn arfer da i gyflogwyr:

- ymgymryd â gwiriad DBS wrth benodi aelod newydd o staff. Dylai cyflogwyr roi ystyriaeth o ddifrif i gynnal gwiriad DBS newydd ar gyfer aelodau staff sydd wedi cael eu cyflogi am gyfnodau hir, a lle mae cyflogwyr yn helpu darparwyr presgripsiynau annibynnol i ymestyn eu rôl;
- cynnal cofrestr o'r darparwyr presgripsiynau annibynnol ac atodol sy'n gweithio yn eu cymuned gofal iechyd ynghyd â chopi o lofnod y darparwr presgripsiynau.

# Cadw cofnodion

---

Mae'n ofynnol i bob gweithiwr iechyd proffesiynol gadw cofnodion cywir, darllenadwy, diamwys a chyfoes o ofal claf.

Yr arfer gorau yw rhoi manylion unrhyw bresgripsiwn, ynghyd â manylion eraill ymgynghoriadau cleifion, ar y cofnod a rennir ar unwaith, neu fel arall, cyn gynted â phosib ar ôl yr ymgynghoriad. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol iawn (e.e. pan ddaw penwythnos neu wyliau cyhoeddus yn syth wedyn) y dylai'r cyfnod hwn fod yn fwy na 48 awr o ddyddiad ysgrifennu'r presgripsiwn. Yn ogystal, mae'n bwysig sicrhau bod y darparwr presgripsiynau hefyd yn adolygu'r claf a bod dyddiad yr adolygiad a chanlyniadau'r ymgynghoriad adolygu yn cael eu cofnodi.

Ar hyn o bryd nid oes un model na thempled ar gyfer cofnod claf (ond os am ganllawiau, dylai staff gyfeirio at unrhyw safonau a gyhoeddir gan eu corff rheoleiddio proffesiynol). Bydd cofnod da yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar bob gweithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â thriniaeth claf, er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol iddynt mewn modd amserol.

Argymhellir bod unrhyw gofnod yn nodi:

- dyddiad y presgripsiwn;
- enw'r darparwr presgripsiynau (a'u bod yn gweithredu fel darparwr presgripsiynau annibynnol neu atodol sy'n nyrs/fferylllydd neu'n weithiwr perthynol i iechyd);
- enw'r eitem ar y presgripsiwn, ynghyd â'r maint (neu'r ddos, pa mor aml a beth yw hyd y driniaeth);
- dyddiad yr adolygiad ar gyfer dilyniant y claf a chrynodeb o'r ymgynghoriad.

Er mwyn helpu i roi meddyginiaethau'n ddiogel, dylai'r cofnod gynnwys:

- enw'r feddyginiaeth ar y presgripsiwn;
- cryfder y cymysgedd (os yw'n berthnasol);
- amserlen y dosio (neu amllder rhoi cynnyrch ar y croen); a
- thrwy ba lwybr y bydd y cynnyrch yn mynd i gorff y claf.

Gyda dresinau ac offer, gall fod yn ddefnyddiol cofnodi manylion sut y cânt eu rhoi ar y claf a pha mor aml y cânt eu newid.

Argymhellir cofnodi unrhyw gyngor sy'n cael ei roi i'r claf ynglŷn â meddyginiaethau ar y Rhestr Werthu Gyffredinol a meddyginiaethau Fferyllfa y dylai'r claf eu prynu eu hunain hefyd.

Mae rhagor o wybodaeth am [ysgrifennu presgripsiwn](#) ar gael yn adran ysgrifennu presgripsiynau'r BNF.

# Rhoi gwybod am adweithiau niweidiol i gyffuriau

---

Anogir pob darparwr presgripsiynau i roi gwybod am adweithiau niweidiol posib i gyffuriau drwy [gynllun adrodd ar Gerdyn Melyn](#) yr Asiantaeth Rheoleiddio Cynhyrchion Meddygaeth a Gofal Iechyd (MHRA). Yr MHRA a'r Comisiwn ar Feddyginiaethau Dynol (CHM) sy'n cynnal y cynllun, ac fe'i defnyddir i gasglu gwybodaeth gan weithwyr iechyd proffesiynol a chleifion pan fo lle i amau bod adwaith niweidiol i gyffur (ADR).

Cesglir adroddiadau cardiau melyn gan weithwyr iechyd proffesiynol ac aelodau'r cyhoedd ynghylch:

- meddyginiaethau presgripsiwn;
- meddyginiaethau llysiuol;
- meddyginiaethau dros y cownter (OTC); a
- meddyginiaethau didrwydded gan gynnwys triniaethau cosmetig.

Gellir gwneud adroddiadau i'r cynllun [www.yellowcard.mhra.gov.uk/](http://www.yellowcard.mhra.gov.uk/) neu ddefnyddio'r ap Cardiau Melyn ar ffôn clyfar. Mae'r ap ar gael i'w lawrlwytho am ddim o [iTunes](#) ar gyfer dyfeisiau iOS neu [PlayStore](#) ar gyfer dyfeisiau Android.

Gellir defnyddio'r ap Cardiau Melyn:

- I roi gwybod am adwaith niweidiol posib (ADR) i feddyginiaeth, gan gynnwys brechlynnau, cynhyrchion llysiuol, a meddyginiaethau homeopathig;
- I dderbyn yr holl wybodaeth diogelwch ddiweddaraf mae'r MHRA yn ei chyhoeddi, gan gynnwys Diweddariadau Diogelwch Cyffuriau, yn y ffrwd newyddion;
- I greu rhestrau gwyllo er mwyn derbyn gwybodaeth ddiogelwch newydd am y meddyginiaethau sy'n berthnasol i chi;
- I weld nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd gan yr MHRA ar gyfer meddyginiaethau a brechlynnau penodol; ac
- I weld yr adroddiadau rydych chi wedi eu hanfon yn flaenrol fel defnyddiwr cofrestredig.

Gellir cael cardiau melyn copi caled o gefn copïau caled o'r BNF, neu gellir eu llwytho i lawr [www.yellowcard.mhra.gov.uk/resources/reportingforms](http://www.yellowcard.mhra.gov.uk/resources/reportingforms).

# Ffurflenni presgripsiwn ac ati

---

## Archebu ffurflenni presgripsiwn (gofal sylfaenol)

---

Gellir cael gwybodaeth am archebu/cofrestru fel darparwr presgripsiynau anfeddygol mewn gofal sylfaenol yn GIG Cymru gan [Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru](#).

Dylai darparwyr presgripsiynau annibynnol sy'n gweithio mewn ysbytai yng Nghymru yn unig gysylltu â'u cyflogwr am gyngor.

## Storio ffurflenni presgripsiwn

---

Mae darparwyr presgripsiynau yn gyfrifol am eu padiau presgripsiwn a dylid cymryd pob rhagofal rhesymol i atal eu colli a defnydd amhriodol ohonynt. Ni ddylid llofnodi ffurflenni presgripsiwn gwag ymlaen llaw cyn eu defnyddio.

Mae presgripsiynau'n ddeunydd ysgrifennu a reolir a dylid eu storio'n ddiogel.

Dylid gwneud cofnod o rif cyfresol cyntaf ac olaf pob pad presgripsiynau a roddir i ddarparwr presgripsiynau. Mae'n arfer da cofnodi rhif cyfresol y ffurflen bresgripsiwn gyntaf sy'n weddill ar ddiwedd pob diwrnod gwaith. Bydd hyn yn helpu i adnabod unrhyw ffurflenni sydd wedi'u colli neu eu dwyn.

## Ffurflenni presgripsiwn wedi'u dwyn

---

Os bydd presgripsiynau'n mynd ar goll neu bod amheuaeth eu bod wedi'u dwyn, rhaid i'r darparwr presgripsiynau roi gwybod i'w rheolwr llinell ar unwaith. Dylai'r rheolwr roi gwybod i'r Bwrdd Iechyd Lleol/Ymddiriedolaeth Iechyd a swyddfa Gwasanaethau Gofal Sylfaenol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru y maent yn archebu ffurflenni ohoni [www.pcg.cig.cymru/cysylltu-a-ni/manylion-cyswllt-gwasanaethau-cyffredinol/](http://www.pcg.cig.cymru/cysylltu-a-ni/manylion-cyswllt-gwasanaethau-cyffredinol/).

## Dinistrio ffurflenni presgripsiwn

---

Os yw ymarferwyr sydd wedi gweithio fel darparwyr presgripsiynau yn newid rôl, yn gadael y sefydliad neu nad oes ganddynt gyfrifoldeb dros ddarparu presgripsiynau bellach, yna rhaid iddynt ddychwelyd unrhyw bresgripsiynau sy'n weddill i'r cyflogwr. Dylai'r cyflogwr roi gwybod i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru am y newid a rhaid dinistrio pob ffurflen bresgripsiwn nas defnyddiwyd yn unol â gweithdrefnau lleol. Bydd y bwrdd iechyd neu'r Ymddiriedolaeth GIG y mae'r darparwr presgripsiynau wedi'i contractio iddi yn gallu rhoi cyngor am y gweithdrefnau lleol ar gyfer dinistrio diogel.

# Delio â sefyllfaoedd penodol

---

## Gwahanu darparu presgripsiwn a gweinyddu neu roi'r meddyginiaethau

---

Lle bynnag y bo'n bosib, dylai darparwyr presgripsiynau wahanu darparu presgripsiynau a rhoi meddyginiaethau (ac ar gyfer fferyllwyr, darparu presgripsiynau a gweinyddu'r meddyginiaethau). Mewn amgylchiadau eithriadol, pan fo un unigolyn yn ymwneud â darparu presgripsiwn a rhoi meddyginiaeth i'r un claf, dylai ail berson cymwys fod yn rhan o wirio cywirdeb y meddyginiaethau a ddarperir. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo'r feddyginiaeth yn gyffur a reolir.

## Darparu presgripsiwn ar eich cyfer chi eich hun, eich ffrindiau a'ch teulu

---

Ni ddylai darparwyr presgripsiynau anfeddygol fyth ddarparu presgripsiwn ar gyfer unrhyw feddyginiaeth ar eu cyfer hwy eu hunain. Ni ddylent roi meddyginiaeth ar bresgripsiwn ychwaith ar gyfer unrhyw un y mae ganddynt berthynas bersonol neu emosiynol agos â nhw, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

## Breintiau ac anrhegion

---

Mae Rheoliadau Meddyginiaethau (Hysbysebu) 1994 yn rheoleiddio hysbysebu a hyrwyddo meddyginiaethau yn llym, ac mae'n bwysig mai dim ond ar sail tystiolaeth, addasrwydd clinigol a bod yn gost-efeithiol y mae darparwyr presgripsiynau anfeddygol yn dewis cynnyrch meddyginiaethol i'w cleifion.

Gwaherddir anrhegion personol, ac mae'n drosedd i ofyn am, neu dderbyn, anrheg neu gymhelliad gwaharddedig. Dylai darparwyr presgripsiynau bob amser ddilyn polisiau'r sefydliad sy'n eu cyflogi a chwblhau'r datganiadau perthnasol ar gyfer derbyn breintiau ac anrhegion.

Gall cwmnïau hefyd gynnig lletygarwch mewn cyfarfod proffesiynol neu wyddonol neu mewn cyfarfodydd a gynhelir i hyrwyddo meddyginiaethau, ond dylai lletygarwch o'r fath fod yn rhesymol o ran lefel ac yn llai pwysig na phrif bwrpas y cyfarfod. Dylai byrddau iechyd, Ymddiriedolaethau'r GIG, ac Awdurdodau Iechyd Arbennig gael polisiau lleol ar gyfer gweithio gyda'r diwydiant fferyllol, sy'n cwmpasu breintiau ac anrhegion, yn ogystal ag, er enghraifft, mynediad at ddarparwyr presgripsiynau a noddi. Dylai darparwyr presgripsiynau ymglyfarwyddo â'r polisiau hyn a disgwylir iddynt gadw atynt.

# Ymarfer fel darparwr presgripsiynau anfeddygol

---

## Cofrestru gyda'r rheoleiddiwr proffesiynol perthnasol

---

### Cofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer darparwyr presgripsiynau sy'n Nyrsys Cofrestredig a bydwragedd

Bydd y Sefydliad Addysg a Gymeradwyir (AEI) yn rhoi manylion y myfyrwyr hynny sydd wedi pasio'r cwrs darparwr presgripsiynau perthnasol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), drwy'r prosesau adrodd arferol. Mae'r NMC yn derbyn y dull yma o nodi ar y gofrestr ar gyfer darparwyr presgripsiynau atodol ac annibynnol.

Unwaith y bydd yr NMC wedi derbyn cadarnhad bod yr unigolyn wedi bodloni'r safon ofynnol, byddant yn ysgrifennu at y nyrs yn eu hysbysu o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn derbyn nodyn cod V300 wrth eu henw ar y gofrestr, fydd yn dangos eu bod yn ddarparwr presgripsiynau annibynnol neu atodol cymwysedig. Rhaid i'r cymhwyster gael ei gofrestru gyda'r NMC o fewn 5 mlynedd ar ôl cwblhau'r hyfforddiant neu bydd angen i'r ymarferydd ailsefyll y cwrs.

Mae'n rhaid i ymarferwyr sy'n cofnodi eu hawl i ddarparu presgripsiynau fel cymhwyster ar y gofrestr dalu ffi. Mae manylion y ffioedd ar gael gan yr NMC.

Bydd yr NMC yn ysgrifennu at y nyrs ac yn rhoi gwybod iddynt pan fydd y gofrestr wedi'i diweddarau. Bydd hyn rhwng 7 a 14 niwrnod ar ôl derbyn y taliad.

Ni ddylai nyrs ddarparu presgripsiynau nes eu bod wedi cael gwybod gan yr NMC bod nodyn wrth eu henw ar y gofrestr.

Dylid cyfeirio gwybodaeth am y broses gofrestru at

[www.nmc.org.uk/registration/](http://www.nmc.org.uk/registration/)

### Cofrestr y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ar gyfer darparwyr presgripsiynau sy'n fferyllwyr

Er mwyn ymarfer fel darparwr presgripsiynau, rhaid i fferylllydd gael nodyn wrth eu henw ar gofrestr y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC).

Drwy weithdrefnau adrodd y cytunwyd arnynt, mae darparwyr cyrsiau darparu presgripsiynau annibynnol yn anfon manylion fferyllwyr sydd wedi pasio eu cwrs at y GPhC.

Er mwyn cael nodyn wrth eu henw, rhaid i fferyllwyr wneud cais yn unigol i'r GPhC gan ddefnyddio'r [ffurflen gais ar-lein](#).

Rhaid cyflwyno ceisiadau i'r GPhC o fewn chwe mis i ddyddiad dyfarnu'r cwrs.

Mae'n rhaid talu ffi er mwyn cael nodyn wrth eich enw. Mae manylion y ffioedd ar gael gan y GPhC.

Ni ddylai fferylllydd weithredu fel darparwr presgripsiynau annibynnol hyd nes y bydd y GPhC wedi rhoi gwybod iddynt bod nodyn wrth eu henw ar y gofrestr.

Mae'r GPhC yn darparu [cyfleuster chwilio ar-lein](#) er mwyn i unrhyw un allu gwirio a yw fferylllydd wedi ei nodi fel darparwr presgripsiynau annibynnol neu atodol.

Ar gyfer ymholiadau am y broses o roi nodyn ar y gofrestr, cysylltwch â'r GPhC drwy e-bost:

[registers@pharmacyregulation.org](mailto:registers@pharmacyregulation.org).

Mae croeso i chi ohebu â'r GPhC yn Gymraeg neu yn Saesneg. Pan dderbynnir gohebiaeth yn Gymraeg, mae'r GPhC wedi ymrwymo i ymateb yn Gymraeg.

### **Cofrestr y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) ar gyfer darparwyr presgripsiynau sy'n optometryddion**

Mae optometryddion yn ennill cymhwyster sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor Optegol Cyffredinol ac sy'n arwain at gofnod arbenigol ar gofrestr y Cyngor.

Gellir dod o hyd i wybodaeth am gysylltu â'r Cyngor Optegol Cyffredinol ar [www.optical.org/en/about-us/contact-us/](http://www.optical.org/en/about-us/contact-us/).

Ni ddylai optometryddion weithredu fel darparwyr presgripsiynau nes iddynt gael gwybod gan adran gofrestru'r Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) bod eu cofrestriad yn cynnwys cofnod ar gofrestr arbenigol y Cyngor ar gyfer darparwyr presgripsiynau annibynnol (IP).

### **Cofrestr Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) ar gyfer darparwyr presgripsiynau sy'n ffisiotherapyddion, parafeddygon, podiatryddion, radiograffwyr therapiwtig a dietegwyr**

Bydd y Sefydliad Addysg a Gymeradwyr (AEI) yn darparu rhestr drwy'r prosesau adrodd arferol, gyda manylion y myfyrwyr sydd wedi pasio'r cwrs darparu presgripsiynau perthnasol. Mae Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) yn diweddarau'r gofrestr yn awtomatig.

Gall y broses gofrestru gymryd 7 i 14 diwrnod ar ôl i Gyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) gael y rhestr o fyfyrwyr llwyddiannus sydd wedi cwblhau cwrs darparu presgripsiynau anfeddygol gan y Sefydliadau Addysg a Gymeradwyr (AEI).

Ni ddylai'r darparwr presgripsiynau proffesiynol sy'n radiograffydd neu'n weithiwr perthynol i iechyd weithio fel darparwr presgripsiynau nes bod darparu

presgripsiynau annibynnol (neu atodol) yn ymddangos wrth eu henw ar y gofrestr ar-lein.

Gall gweithwyr proffesiynol perthynol ym maes iechyd a radiograffwyr sydd ag ymholiadau am y broses gofrestru gysylltu ag adran gofrestru [Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal \(HCPC\)](#).

## **Cofrestru gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru**

Rhaid i unrhyw ddarparwyr presgripsiynau annibynnol sydd angen presgripsiynau WP10 y Gwasanaeth Iechyd (i'w defnyddio mewn gofal sylfaenol neu ar gyfer cleifion allanol ysbytai) gofrestru gyda [Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru](#).

Nid oes angen i ddarparwyr presgripsiynau annibynnol sy'n defnyddio ffurflenni ar wahân i gyfres WP10, h.y. ffurflenni penodol i ysbyty arbennig, gofrestru gyda Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Rhaid rhoi manylion darparwyr presgripsiynau sy'n bwriadu defnyddio ffurflenni WP10 ar gyfer eu presgripsiynau i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, gan ddefnyddio un o'r ffurflenni isod:

Gellir cael ffurflenni hysbysu am ddarparwyr presgripsiynau anfeddygol ar [www.pcg.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-gofal-sylfaenol/presgripsiynwyr-anfeddygol/](http://www.pcg.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-gofal-sylfaenol/presgripsiynwyr-anfeddygol/)

Mae rhoi gwybod i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru am y manylion gofynnol yn fodd o sefydlu prosesau monitro awtomatig yn ogystal â rhoi manylion darparwyr presgripsiynau i'r Cyflenwr Rheoli Print er mwyn argraffu padiau presgripsiwn personol.

Bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Gofal Sylfaenol yn cofrestru'r darparwr presgripsiynau ar

gyllideb bresgripsiynau benodol gydag un o'r byrddau iechyd. Os yw'r darparwr presgripsiynau yn gweithio mewn mwy nag un lleoliad, e.e. mewn dwy feddygfa, mae angen cofrestru ar wahân ar gyfer pob lleoliad.

Cyn cofrestru gyda Phartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru, rhaid i'r darparwr presgripsiynau sicrhau ei fod wedi dweud wrth fwrdd iechyd yr ardal y mae'n bwriadu gweithio ynddi ei fod yn bwriadu darparu presgripsiynau. Cyn dychwelyd ei ffurflen gofrestru, rhaid i'r darparwr presgripsiynau sicrhau ei bod wedi ei llofnodi gan y person priodol yn y bwrdd iechyd.

Rhaid i'r llofnodwr awdurdodedig fod mewn sefyllfa i gadarnhau ar ran y bwrdd iechyd perthnasol:

- bod angen y gwasanaeth, ac felly bod cyfle i weithredu fel darparwr presgripsiynau; a
- bod cyllideb i dalu costau'r presgripsiynau ar y GIG.

## Newid amgylchiadau

Cyfrifoldeb cyflogwr darparwr presgripsiynau anfeddygol sydd wedi'i gofrestru gyda Phartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru yw sicrhau bod Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru yn cael ei hysbysu cyn gynted â phosib:

- am unrhyw newid i fanylion y darparwr presgripsiynau, er enghraifft newid enw wrth briodi neu newid cyfeiriad neu rif ffôn;
- pan nad yw darparwr presgripsiynau'n darparu presgripsiynau bellach.

Bydd methu â gwneud hyn yn golygu y bydd ffurflenni presgripsiwn yn parhau i gael eu cynhyrchu gyda'r manylion anghywir arnynt. Gellir gwneud newidiadau drwy gyflwyno ffurflen hysbysu.

## Pa ffurflen bresgripsiwn sydd ei hangen arnaf?

### Gofal sylfaenol

Os yw darparwr sy'n gweithio mewn gofal sylfaenol yn darparu presgripsiynau a fydd yn cael eu dosbarthu gan fferyllfa gymunedol neu gan feddyg teulu fferyllol gyda'r GIG yn talu, rhaid llunio presgripsiynau gan ddefnyddio ffurflenni cyfres WP10 y GIG. Dylai'r darparwr presgripsiynau drafod gofynion eu ffurflenni presgripsiwn gyda'r unigolion enwebedig sy'n gyfrifol am archebu a dosbarthu presgripsiynau yn eu sefydliad.

Telir costau darparu presgripsiynau sy'n codi o bresgripsiynau WP10 o gyllideb presgripsiynau y bwrdd iechyd perthnasol.

### Gofal eilaidd

Dylai darparwr presgripsiynau sy'n rhoi presgripsiynau fydd yn cael eu dosbarthu yn yr ysbyty ddefnyddio ffurflenni presgripsiwn safonol yr ysbyty e.e. siart cleifion mewnol, presgripsiwn wrth ryddhau, presgripsiwn cleifion allanol.

Os yw darparwr yn gweithio mewn gofal eilaidd ond yn darparu presgripsiynau fydd yn cael eu gweinyddu mewn fferyllfa gymunedol gyda'r GIG yn talu, rhaid llunio presgripsiynau gan ddefnyddio ffurflenni cyfres WP10 (HP) y GIG. Dylai'r darparwr presgripsiynau drafod gofynion eu ffurflenni presgripsiwn gyda'r unigolion enwebedig sy'n gyfrifol am archebu a dosbarthu presgripsiynau yn eu sefydliad.

Telir costau darparu presgripsiynau sy'n codi o bresgripsiynau cyfres WP10 mewn ysbyty (WP10HP) o gyllideb presgripsiynau berthnasol yr ysbytai, fel arfer ar lefel cyfarwyddiaeth.



## Archebu ffurflenni presgripsiwn

---

Dylai cyflogwyr nodi nad yw ffurflenni presgripsiwn WP10 GIG yn cael eu hanfon allan yn awtomatig ar ôl cofrestru, ac mae'n rhaid archebu presgripsiynau gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar gyfer gofal sylfaenol neu'n uniongyrchol gan y Cyflenwr Rheoli Print ar gyfer gofal eilaidd.

Dim ond os yw'r darparwr presgripsiynau hefyd wedi darparu'r manylion cofrestru perthnasol i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru y bydd y Cyflenwr Rheoli Print yn prosesu archebion. Dylid caniatáu o leiaf deng niwrnod gwaith rhwng rhoi gwybod i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ac archebu presgripsiynau.

Ni ddylid archebu padiau presgripsiwn WP10 newydd fwy na 6 wythnos cyn y dyddiad y disgwylir i'r unigolyn ddechrau darparu presgripsiynau ar ran y sefydliad.

Bydd y Cyflenwr Rheoli Print yn rhoi padiau presgripsiwn WP10 i'w defnyddio mewn gofal sylfaenol i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, fydd yn eu hanfon ymlaen i'r darparwr presgripsiynau.

Nid yw presgripsiynau WP10HP wedi'u personoli ac maen nhw'n cael eu hanfon yn uniongyrchol i'r ysbyty a'u harchebodd.

## Personoli ffurflenni presgripsiwn

---

Bydd y Cyflenwr Rheoli Print yn argraffu manylion personol y darparwr presgripsiynau dros bediau presgripsiynau ar gyfer darparwr atodol ac annibynnol, gan ddefnyddio'r manylion a gofrestrwyd gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Bydd hyn yn cynnwys enw, cod adnabod unigryw GIG Cymru, cod y gweithle, cyfeiriad gwaith, rhif ffôn, enw bwrdd iechyd a rhif cofrestru proffesiynol y darparwr presgripsiynau.

Nid yw padiau presgripsiwn Darparwr Presgripsiynau Annibynnol sy'n Nyrs Gymunedol (WP10CN, WP10PN) na phresgripsiynau un ddalen a ddefnyddir mewn gofal sylfaenol wedi'u personoli.

Mae'n bwysig felly:

- bod nyrsys sy'n defnyddio WP10CN ac WP10PN yn nodi ar bob presgripsiwn beth yw enw'r darparwr presgripsiynau, eu cod adnabod unigryw, cod eu gweithle, eu cyfeiriad gwaith, rhif ffôn, enw eu bwrdd iechyd a'u rhif cofrestru NMC; neu
- bod yn rhaid i unrhyw feddalwedd gyfrifiadurol a ddefnyddir ar gyfer presgripsiynau un ddalen allu argraffu enw'r darparwr presgripsiynau, eu cod adnabod unigryw, cod y gweithle, cyfeiriad gwaith, rhif ffôn, enw'r bwrdd iechyd a'u rhif cofrestru proffesiynol arnynt.

Nid yw padiau presgripsiwn cyfres WP10 a ddefnyddir mewn gofal eilaidd wedi'u personoli a bydd angen eu stampio gyda chod costio'r gyfarwyddiaeth, enw'r ysbyty neu enw'r ysbyty a'r gyfarwyddiaeth a chyfeiriad yr ysbyty.

## Presgripsiynau a gynhyrchir ar gyfrifiadur

---

Mae presgripsiynau un ddalen i'w defnyddio gyda systemau cyfrifiadurol meddygon teulu ar gael fel WP10SPSS (ar gyfer darparwyr presgripsiynau atodol mewn gofal sylfaenol) a WP10IPSS (ar gyfer darparwyr presgripsiynau annibynnol mewn gofal sylfaenol).

Dylai darparwyr presgripsiynau atodol ac annibynnol sy'n dymuno darparu presgripsiynau gan ddefnyddio cyfrifiadur y feddygfa neu system debyg:

- sicrhau bod y meddalwedd cyfrifiadurol yn eu galluogi i wneud hyn yn gyntaf;
- a gofyn am y fersiwn un ddalen o ffurflen WP10 yn hytrach na phad.

Bydd gan y presgripsiynau un ddalen y geiriau Darparwr Presgripsiynau Atodol neu Darparwr Presgripsiynau Annibynnol wedi'u hargraffu ymlaen llaw ar frig y darn â'r presgripsiwn ei hun. Ni ddylid defnyddio presgripsiwn un ddalen WP10 sy'n perthyn i gydweithwyr sy'n feddygon teulu; a

- dylid hysbysu Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru drwy gwblhau adran berthnasol y ffurflen hysbysu.

Ar ôl derbyn y ffurflen wedi'i chwblhau, bydd Cydwasanaethau GIG Cymru yn dyrannu cod adnabod unigryw i bob unigolyn. Rhaid i'r darparwr presgripsiynau anfeddygol sicrhau bod y meddalwedd meddygon teulu yn argraffu'r cod adnabod unigryw hwn yn y lleoliad cywir ar y ffurflen bresgripsiwn.

## Gwirio statws darparwyr presgripsiynau anfeddygol

---

Yn y rhan fwyaf o achosion, gellir datrys ymholiadau drwy gysylltu â'r darparwr presgripsiynau anfeddygol neu eu cyflogwr.

Dylai cyflogwyr neu fferyllfeydd sy'n dymuno cadarnhau statws darparwr presgripsiynau wirio'r cofrestrau sydd ar gael i'r cyhoedd gan y [Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth \(NMC\)](#), y [Cyngor Fferyllol Cyffredinol \(GPhC\)](#), y [Cyngor Optegol Cyffredinol \(GOC\)](#) neu [Gyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal \(HCPC\)](#).

# Gweinyddu presgripsiynau gan ddarparwyr anfeddygol

---

Ni ddisgwylir i'r fferyllydd sy'n gweinyddu presgripsiwn wirio fel rheol:

- bod y feddyginiaeth ar y presgripsiwn wedi'i chynnwys yn y cynllun rheoli clinigol ar gyfer darparwyr presgripsiynau atodol;
- bod y sawl a ddarparodd y presgripsiwn yn ddarparwr presgripsiynau sy'n nyrs (wedi'u cyfyngu i restr fformiwlâu ymarferwyr nyrsio cymunedol), yn ddarparwr presgripsiynau atodol neu annibynnol; neu
- bod y sawl a ddarparodd y presgripsiwn yn gweithredu o fewn eu meysydd cymhwysedd.

Mae angen i'r fferyllydd sy'n gweinyddu sicrhau bod presgripsiwn yn bodloni'r gofynion cyfreithiol gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau ar yr hyn y gellir ei roi ar bresgripsiwn gan wahanol weithwyr proffesiynol fel y nodir yn gynharach yn y canllawiau hyn, ac os mai presgripsiwn gan y GIG sy'n cael ei weinyddu, y caniateir i'r feddyginiaeth gael ei darparu ar gost y GIG.

## Gwahanu darparu presgripsiynau a gweinyddu, cyflenwi

---

Fel arfer, dylai darparu presgripsiynau a gweinyddu, cyflenwi neu roi meddyginiaethau i gleifion barhau i fod yn swyddogaethau ar wahân a gyflawnir gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar wahân.

Dogfen ar y cyd rhwng y Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) a'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS) yw [Professional Guidance on the Administration of Medicines in Healthcare Settings](#) ac mae'n datgan: Lle bynnag y bo'n bosib, cyflawnir gweithredoedd darparu presgripsiynau, gweinyddu/cyflenwi a rhoi meddyginiaeth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar wahân. Yn eithriadol, pan fo amgylchiadau clinigol yn golygu bod hynny'n angenrheidiol ac er budd y claf, gall yr un gweithiwr gofal iechyd proffesiynol fod yn gyfrifol am ddarparu, gweinyddu neu gyflenwi presgripsiwn neu roi meddyginiaethau. Lle mae hyn yn digwydd, bydd trywydd archwilio, dogfennau a phrosesau ar waith er mwyn lleihau gwallau.

Mewn amgylchiadau eithriadol, lle mae fferyllydd yn darparu presgripsiynau ac yn gweinyddu meddyginiaeth ar gyfer claf, fel arfer dylai ail berson cymwys fod yn rhan o'r broses wirio. Os yw'r ddwy rôl yn cydfodoli, dylai person arall gynnal gwiriad cywirdeb terfynol a lle bo hynny'n bosib, dylid cynnal gwiriad ar gyfer priodoldeb clinigol hefyd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn [natganiad safiad ar y cyd](#) yr RCN a'r RPS.

## Meddygon fferyllol

---

Pan fo practis meddyg teulu yn gweinyddu presgripsiynau, gall presgripsiynau gan ddarparwyr annibynnol ac atodol gael eu gweinyddu gan y practis ond dim ond ar gyfer cleifion y practis hwnnw.

Ni all Meddygon Fferyllol weinyddu presgripsiynau a ysgrifennwyd gan ddarparwyr presgripsiynau atodol ac annibynnol i gleifion practisau eraill.

## Materion trawsffiniol

---

Gall fferyllwyr cymunedol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon weinyddu presgripsiynau a ysgrifennwyd gan ddarparwyr annibynnol sy'n ymarfer yng Nghymru.

Gall fferyllwyr cymunedol yng Nghymru weinyddu presgripsiynau a ysgrifennwyd gan ddarparwyr annibynnol sy'n ymarfer yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## Practisau preifat

---

Rhaid i ddarparwyr presgripsiynau annibynnol sy'n Nyrsys Cofrestredig, fferyllwyr, optometryddion, ffisiotherapyddion, podiatryddion, radiograffwyr therapiwtig a pharafeddygon ac sy'n gweithio y tu allan i leoliadau'r GIG sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion proffesiynol i ddangos eu cymhwysedd i ymarfer.

Ni ddylai darparwyr presgripsiynau annibynnol sy'n Nyrsys Cofrestredig, optometryddion, fferyllwyr, ffisiotherapyddion, podiatryddion, radiograffwyr therapiwtig a pharafeddygon ac sydd â rolau deulol yn y GIG ac yn y sector preifat ddefnyddio ffurflenni presgripsiwn WP10 GIG wrth ymarfer yn y sector preifat.

Dylai darparwyr presgripsiynau annibynnol sy'n Nyrsys Cofrestredig, optometryddion, fferyllwyr, ffisiotherapyddion, podiatryddion, radiograffwyr therapiwtig a pharafeddygon ac sy'n gweithio yn y sector preifat ofyn am arweiniad gan eu cyrff proffesiynol perthnasol neu eu bwrdd iechyd ynghylch ysgrifennu presgripsiynau preifat yn ystod eu gwaith ar gyfer y GIG.

Dylid gweinyddu presgripsiynau preifat a ysgrifennwyd gan ddarparwr presgripsiynau annibynnol yn yr un modd â'r presgripsiynau hynny a ysgrifennwyd gan feddyg neu ddeintydd.

# Geirfa

---

## Cyffur a reolir (CD)

Mae cyffur a reolir yn un a ddynodir felly yn Neddff Camddefnyddio Cyffuriau 1971. Mae pum categori o gyffuriau a reolir, Atodlen 1, 2, 3, 4 a 5.

## Cyffuriau triongl du

Mae'r triongl du yn dynodi cyffur newydd. Dylid anfon adroddiad am bob adwaith niweidiol i gyffuriau triongl du i gynllun cardiau melyn yr MHRA.

## Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC)

Y corff rheoleiddio ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal penodedig yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn cynnwys y proffesiynau y cyfeirir atynt ar y cyd fel Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Perthynol ac fel Gwyddonwyr Gofal Iechyd.

## Cynllun rheoli clinigol (CMP)

Dogfen y cytunwyd arni rhwng darparwr presgripsiynau atodol, meddyg neu ddeintydd, a chlaf yn disgrifio sut y caiff y claf eu rheoli a pha feddyginiaethau y gall y darparwr eu rhoi iddynt ar bresgripsiwn.

## Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG)

Y pwyllgor cynghori statudol a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru i ddarparu cyngor ar feddyginiaethau newydd a phresennol, rheoli meddyginiaethau a darparu presgripsiynau yng Nghymru.

## Gweithiwr Iechyd Proffesiynol Perthynol (AHP)

Person sydd wedi'i gofrestru yn un o'r proffesiynau a nodwyd fel Proffesiwn Iechyd Perthynol (AHP) yng Nghymru, dan reoleiddiad y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC). At ddibenion y ddogfen hon, mae hyn yn golygu: person sydd wedi'i gofrestru naill ai fel parafeddyg, ffisiotherapydd, dietegydd neu bodiatrydd. (DS. Nid yw hyn yn cynnwys radiograffwyr, sy'n cael eu rheoleiddio gan yr HCPC, ond sydd wedi'u dynodi'n un o broffesiynau gwyddor gofal iechyd).

## Meddyginiaethau all-drwydded

Meddyginiaeth sy'n cael ei darparu ar bresgripsiwn y tu hwnt i delerau'r awdurdodiad marchnata.

## Meddyginiaethau didrwydded

Nid oes gan feddyginiaeth ddidrwydded awdurdodiad marchnata a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA). Mae cynhyrchion nad ydynt wedi'u trwyddedu yn y Deyrnas Unedig yn cynnwys: i) cynnyrch a fewnforiwyd sydd wedi'i drwyddedu mewn aelod-wladwriaeth arall neu drydedd wlad ond nid yn y Deyrnas Unedig a ii) chynhyrchion didrwydded a weithgynhyrchir yn y Deyrnas Unedig yn unol â manyleb darparwr presgripsiynau, i ddiwallu anghenion arbennig eu cleifion unigol, lle nad oes unrhyw feddyginiaeth drwyddedig yn y Deyrnas Unedig ar gael i ddiwallu'r anghenion arbennig hynny.

## **Meddyginiaethau trwyddedig**

Mae'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) yn gweithredu system drwyddedu cyn marchnata meddyginiaethau. Mae meddyginiaethau sy'n bodloni safonau diogelwch, ansawdd ac effeithiolrwydd yn derbyn awdurdodiad marchnata (trwydded cynnyrch gynt), sydd fel arfer yn angenrheidiol cyn y gellir gwerthu'r feddyginiaeth neu ei rhoi ar bresgripsiwn. Mae'r awdurdodiad hwn yn cwmpasu'r prif weithgareddau sy'n gysylltiedig â marchnata cynnyrch meddyginiaethol.

## **Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru**

Swyddogaeth cydwasanaethau a sefydlwyd er mwyn darparu ystod eang o wasanaethau proffesiynol, technegol a gweinyddol ar gyfer ac ar ran GIG Cymru gan gynnwys yr Uned Gwasanaethau Darparu Presgripsiynau sy'n darparu gwasanaethau mewnbynnu data a phrisio ar gyfer presgripsiynau sy'n cael eu gweinyddu yng Nghymru. Mae hefyd yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth darparu presgripsiynau, a systemau gwybodaeth er mwyn galluogi monitro gwariant ar gyffuriau.

## **Sefydliad Addysg a Gymeradwyr (AEI)**

Sefydliad addysg uwch sydd wedi cael ei gymeradwyo gan y rheoleiddwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu hyfforddiant darparu presgripsiynau anfeddygol.

## **System Dadansoddi Cymharol ar gyfer Archwilio Darparu Presgripsiynau (CASPA)**

System a ddarperir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i ddadansoddi'r drefn darparu presgripsiynau.

## **Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC)**

Y corff rheoleiddio ar gyfer fferyllwyr yng Nghymru, Lloegr, a'r Alban.

## **Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)**

Dyma gorff rheoleiddio a chorff proffesiynol nyrsys a bydwreigedd yn y Deyrnas Unedig. Mae gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth gofrestr broffesiynol gyda thair rhan iddi: Nyrsio, Bydwreigiaeth a Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol.

## **Y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC)**

Y corff rheoleiddio ar gyfer optometryddion yng Nghymru, Lloegr, a'r Alban.

## **Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS)**

Y corff proffesiynol ar gyfer fferyllwyr yng Nghymru, Lloegr, a'r Alban. Mae'r Gymdeithas yn gyfrifol am gynnal y fframwaith cymhwysedd ar gyfer pob darparwr presgripsiynau beth bynnag fo'u proffesiwn.

## **Ymarferydd Darparu Presgripsiynau Dynodedig (DPP)**

Ymarferydd sy'n brofiadol fel darparwr presgripsiynau ac sy'n cefnogi, goruchwyllo ac asesu darparwr presgripsiynau annibynnol neu atodol yn ystod elfen 'dysgu wrth ymarfer' y cwrs hyfforddi.

# Llyfryddiaeth

---

Problemau wrth Ddarparu Presgripsiynau – Canllaw ar gyfer Darparwyr Presgripsiynau  
[www.awmsg.nhs.wales/files/guidelines-and-pils/prescribing-dilemmas-a-guide-for-prescribers-pdf/](http://www.awmsg.nhs.wales/files/guidelines-and-pils/prescribing-dilemmas-a-guide-for-prescribers-pdf/)

Canllawiau Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain (BNF) ar ddarparu presgripsiynau  
[www.bnf.nice.org.uk/guidance/guidance-on-prescribing.html](http://www.bnf.nice.org.uk/guidance/guidance-on-prescribing.html)

Llyfr Fformiwlâu Darparwyr Presgripsiynau sy'n Nyrsys  
[www.bnf.nice.org.uk/nurse-prescribers-formulary/approved-list-for-prescribing-by-community-practitioner-nurse-prescribers-npf/](http://www.bnf.nice.org.uk/nurse-prescribers-formulary/approved-list-for-prescribing-by-community-practitioner-nurse-prescribers-npf/)

Canllawiau Ymarfer Coleg y Parafeddygon – Darparwyr presgripsiynau annibynnol ac atodol  
[www.collegeofparamedics.co.uk/COP/Professional\\_development/Medicines\\_and\\_Independent\\_Prescribing/COP/ProfessionalDevelopment/Medicines\\_and\\_Independent\\_Prescribing.aspx?hkey=04486919-f7b8-47bd-8d84-47bfc11d821a](http://www.collegeofparamedics.co.uk/COP/Professional_development/Medicines_and_Independent_Prescribing/COP/ProfessionalDevelopment/Medicines_and_Independent_Prescribing.aspx?hkey=04486919-f7b8-47bd-8d84-47bfc11d821a)

Llawlyfr Darparu Presgripsiynau Annibynnol y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC)  
[www.optical.org/media/j51li2rq/independent-prescribing-handbook.pdf?docid=9B627708-5D4E-48AF-AACCD07F79427B19](http://www.optical.org/media/j51li2rq/independent-prescribing-handbook.pdf?docid=9B627708-5D4E-48AF-AACCD07F79427B19)

Safonau Darparu Presgripsiynau Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC)  
[www.hcpc-uk.org/standards/standards-relevant-to-education-and-training/standards-for-prescribing/](http://www.hcpc-uk.org/standards/standards-relevant-to-education-and-training/standards-for-prescribing/)

Safonau Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW) ar gyfer Sicrhau Cymwyseddau Darparwyr Presgripsiynau Anfeddygol yng Nghymru  
[www.heiw.nhs.wales/files/standards-for-competency-assurance-of-independent-and-supplementary-prescribers-in-wales/](http://www.heiw.nhs.wales/files/standards-for-competency-assurance-of-independent-and-supplementary-prescribers-in-wales/)

Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd – Darpariaeth Presgripsiynau Meddygol ac Anfeddygol – Cymysgu meddyginiaethau  
[www.gov.uk/drug-safety-update/medical-and-non-medical-prescribing-mixing-medicines-in-clinical-practice](http://www.gov.uk/drug-safety-update/medical-and-non-medical-prescribing-mixing-medicines-in-clinical-practice)

Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer ôl-gofrestru a safonau ar gyfer darparu presgripsiynau  
[www.nmc.org.uk/standards/standards-for-post-registration/standards-for-prescribers/](http://www.nmc.org.uk/standards/standards-for-post-registration/standards-for-prescribers/)

Rheoliadau Hysbysebu Meddyginiaethau 1994  
[www.legislation.gov.uk/uksi/1994/1932/made](http://www.legislation.gov.uk/uksi/1994/1932/made)

Rheoliadau Camddefnyddio Cyffuriau 2021  
[www.legislation.gov.uk/uksi/2001/3998/contents/made](http://www.legislation.gov.uk/uksi/2001/3998/contents/made)

Fframwaith cymhwysedd Ymarferwyr Dynodedig Darparu Presgripsiynau y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS)

[www.rpharms.com/resources/frameworks/designated-prescribing-practitioner-competency-framework](http://www.rpharms.com/resources/frameworks/designated-prescribing-practitioner-competency-framework)

Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer pob Darparwr Presgripsiynau – Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS)

[www.rpharms.com/resources/frameworks/prescribing-competency-framework/competency-framework](http://www.rpharms.com/resources/frameworks/prescribing-competency-framework/competency-framework)

Canllawiau Proffesiynol y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol: Ehangu Cwmpas Ymarfer Darparu Presgripsiynau

[www.rpharms.com/Portals/0/RPS%20document%20library/Open%20access/Prescribing%20Competency%20Framework/RPS%20-%20Scope%20of%20Practice-English-220601.pdf?ver=fNYC4O\\_ThDfE3AsC01HvFw%3d%3d](http://www.rpharms.com/Portals/0/RPS%20document%20library/Open%20access/Prescribing%20Competency%20Framework/RPS%20-%20Scope%20of%20Practice-English-220601.pdf?ver=fNYC4O_ThDfE3AsC01HvFw%3d%3d)



# Atodiad 1: Y cynllun rheoli clinigol

---

Cyn y gall darparwr atodol ddarparu presgripsiynau, mae'n ofynnol i gynllun rheoli clinigol (CMP) y cytunwyd arno fod ar waith (yn ysgrifenedig neu'n electronig) sy'n ymwneud â chlaf a enwir ac â chyflwr neu gyflyrau penodol y claf hwnnw i'w rheoli gan y darparwr atodol. Dylid cynnwys hyn yng nghofnod y claf.

Rhaid i'r cynllun gynnwys:

- enw'r claf y mae'r cynllun yn ymwneud ag ef;
- y salwch neu'r cyflyrau y mae'r darparwr presgripsiynau atodol yn gallu eu trin;
- y dyddiad y mae'r cynllun i ddod i rym, a phryd bydd y meddyg neu'r deintydd sy'n rhan o'r cynllun yn ei adolygu;
- cyfeiriad at ddosbarth neu ddisgrifiad y meddyginiaethau neu'r mathau o offer y gellir eu rhoi ar bresgripsiwn neu eu rhoi i'r claf o dan y cynllun;
- unrhyw gyfyngiadau neu derfynau ar gryfder neu ddos unrhyw feddyginiaeth y gellir ei rhoi ar bresgripsiwn neu ei rhoi i glaf o dan y cynllun, ac unrhyw gyfnod ar gyfer rhoi neu ddefnyddio unrhyw feddyginiaeth neu offer y gellir eu rhoi ar bresgripsiwn neu eu rhoi i'r claf o dan y cynllun;
- rhybuddion perthnasol am sensitifrwydd y claf y gwyddys amdano;
- y trefniadau ar gyfer hysbysu am adweithiau niweidiol i gyffuriau; ac
- yr amgylchiadau lle dylai'r darparwr presgripsiynau atodol gyfeirio at, neu geisio cyngor, y meddyg neu'r deintydd sy'n rhan o'r cynllun.

Dylid cadw'r cynllun rheoli clinigol mor syml â phosib. Gall y cynllun gyfeirio at ganllawiau cenedlaethol neu leol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i nodi'r meddyginiaethau sydd i'w rhoi ar bresgripsiwn, neu'r amgylchiadau lle dylid newid dos, amllder neu gymysgedd y feddyginiaeth. Nid oes angen ailadrodd y cyngor yn y canllawiau hyn yng nghorff y cynllun ei hun, ac nid oes angen i'r cynllun ailadrodd gwybodaeth fanwl sydd wedi'i chynnwys yng nghofnod y claf a rennir gan y ddau ddarparwr presgripsiynau, oni bai bod gwybodaeth o'r fath yn hanfodol er mwyn eglurder a diogelwch y claf.

Rhaid adolygu'r cynllun o leiaf bob 12 mis.

Yn dilyn diagnosis gan y darparwr presgripsiynau annibynnol sy'n feddyg neu'n ddeintydd, bydd angen i'r darparwyr annibynnol ac atodol drafod y cynllun cyn i'r ddogfen ei hun gael ei pharatoi.

Gall y meddyg neu'r deintydd neu'r darparwr presgripsiynau atodol ddrafftio'r cynllun; fodd bynnag, rhaid i'r ddau gytuno'n ffurfiol ar y cynllun cyn y gellir dechrau darparu presgripsiynau'n atodol.

Rhaid cofnodi bod y claf wedi rhoi eu cydsyniad i fod yn rhan o bartneriaeth darparu presgripsiynau atodol.

Mater i'r meddyg neu'r deintydd yw pennu maint y cyfrifoldeb y mae ef neu hi am ei roi i'r darparwr atodol o dan y cynllun.

Bydd y cynllun yn dod i ben:

- unrhyw bryd bydd y meddyg neu'r deintydd yn penderfynu;
- ar gais y darparwr presgripsiynau atodol neu'r claf; neu
- ar yr adeg a bennir ar gyfer adolygu'r claf (oni bai fod y cynllun yn cael ei adnewyddu gan y ddau ddarparwr bryd hynny).

